

# 1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A211186	22-12-2021	(Aldi Stores Ltd)	The erection of a Class A1 retail Aldi foodstore, the refurbishment of a Grade II listed sports pavilion, the installation of three pre- fabricated wooden exhibition pods, and a nature and biodiversity area with associated access, car parking and landscaping.	Trinity St Davids Playing Fields Pontfaen Road, Lampeter, Ceredigion,	Refuse

# 1.1. A211186



<b>Rhif y Cais / Application Reference</b>	A211186
<b>Derbyniwyd / Received</b>	22-12-2021
<b>Y Bwriad / Proposal</b>	Codi siop adwerthu bwyd Dosbarth A1 - Aldi, adnewyddu pafiliwn chwaraeon rhestredig Gradd II, gosod tri phod arddangos o bren parod a chreu ardal natur a bioamrywiaeth, gyda mynedfa, maes parcio a gwaith tirlunio yn gysylltiedig.
<b>Lleoliad Safle / Site Location</b>	Caeau Chwarae Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Heol Pontfaen, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion.
<b>Math o Gais / Application Type</b>	Cais Cynllunio Llawn
<b>Ymgeisydd / Applicant</b>	(Aldi Stores Ltd),
<b>Asiant / Agent</b>	Mr Lloyd Collins (Planning Potential Limited), Planning Potential Limited 13 - 14 Orchard Street, Bryste, BS1 5EH

## Y SAFLE A'I HANES PERTHNASOL

Caeau Chwarae'r Drindod Dewi Sant yw safle'r cais, wrth ochr Heol Pontfaen a thua 270 o fetrau i'r gorllewin o ganol tref Llanbedr Pont Steffan. Saif y safle y tu allan i Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan gyda'r ffin tua 70 metr i'r dwyrain o gornel gogledd-ddwyreiniol y maes chwarae. Mae'r safle'n mesur tua 2.61ha ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ddefnyddio fel cyfleuster chwaraeon. Coed aeddfed a chlawdd sydd ar y ffin ogleddol gyda Heol Pontfaen ac mae tai preswyl yn bennaf ar yr ochr arall i'r heol, gan gynnwys Canolfan Creuddyn a ddatblygwyd yn ddiweddar, a Gorsaf Betrol; i'r dwyrain mae cartref preswyl Hafan Deg, cwrt tennis awyr agored a llain bowlio; mae Canolfan Hamdden Llambled a'r Ysgol Gyfun y tu hwnt i hynny; i'r de mae Ysgol Gynradd Llambled; i'r gorllewin mae caeau amaethyddol a thai preswyl yn bennaf.

Coed aeddfed a chlawdd sydd o gwmpas y terfyn i'r gogledd, y gorllewin a'r de ac mae'r coed yn destun Gorchymyn Diogelu Coed. Ar y ffin ddwyreiniol y mae wal gerrig isel, ffens weiren fetel, gydag ambell i goeden ger y fynedfa. Mae cwrs dŵr yn llifo wrth ochr i'r rhes o goed ar y ffin orllewinol ac mae wal gerrig yn rhedeg ar hyd ffin ogleddol y safle. Mae'r prif fynediad i'r cae chwarae i'w gael drwy'r gatiau haearn yn y cornel pellaf i'r gogledd-ddwyrain, oddi ar Heol Pontfaen.

Ar hyn o bryd mae safle'r cais yn darparu dau faes ar borfa a ddefnyddir ar gyfer rygbi, criced, pêl-droed, hoci a gweithgareddau chwaraeon eraill gan Goleg Dewi Sant gynt, sef Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant erbyn hyn. Yn rhan ddeheuol y safle y mae pafiliwn rhestredig Gradd II. Saif ystafell newid fwy modern yn union y tu ôl i'r strwythur rhestredig ac nid yw hon yn rhan o'r adeilad rhestredig.

Mae'r safle yn berchen ac yn cael ei reoli gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Saif y safle o fewn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Teifi.

Yr unig hanes cynllunio a nodwyd yw codi storfa ar gyfer y tirmon. Cymeradwywyd ar sail amodau ar 31-01-1990.

Cyflwynwyd ymholiad cyn cyflwyno cais (Q200146).

Cyflwynwyd barn sgrinio parthed asesiad o'r effaith amgylcheddol (AEA) cyn cyflwyno'r cais, lle dywedwyd nad oedd y cais yn ddatblygiad AEA/ EIA. (Q200280).

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyn-ymgeisio rhwng 15 Tachwedd 2021 a 15 Rhagfyr 2021.

## MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer codi siop adwerthu bwyd Dosbarth A1, adnewyddu'r pafiliwn chwaraeon rhestredig Gradd II, gosod tri phod arddangos pren parod a chreu ardal natur a bioamrywiaeth, gyda mynedfa, maes parcio a gwaith tirlunio yn gysylltiedig.

Mae cais am ganiatâd adeilad rhestredig wedi'i gyflwyno hefyd ochr yn ochr â'r cais hwn ar gyfer adnewyddu'r pafiliwn, sy'n cael ei ystyried o dan gais cyfeirnod A211187.

### Siop Fwyd

Mae'n bwysig nodi mai siop fwyd Dosbarth A1 yw'r defnydd y ceisir amdano. Os cymeradwyir y cais, gallai unrhyw fanwerthwr bwyd feddiannu'r siop ac nid yw wedi'i chyfyngu i Aldi yn unig.

Bwriedir codi'r siop fwyd (Dosbarth A1) yn rhan ddwyreiniol safle'r cais a byddai'n adeilad cyfoes un llawr gyda tho fflat a pharapet. Mae'r adeilad yn mesur tua 60m o hyd a 40m o led, a chyfanswm uchder o tua 5.7 metr ar y pen gogleddol, a thua 6.5 metr ar y pen deheuol oherwydd bod y tir yn goleddu'n raddol. Yn fewnol bydd y siop yn mesur tua 1,855 metr sgwâr (GIA) a bydd ganddi arwynebedd gwerthiant net o 1,315 metr sgwâr. Ar hwn byddai tua 80% o'r arwynebedd llawr yn cael ei neilltuo i werthu nwyddau cyfleus ac 20% ar gyfer nwyddau cymharol. Mae gweddill yr adeilad yn cynnwys ardal 'gefn tŷ' sef warws, gofod ar gyfer llesiant y staff a gofod ategol arall.

Mae gan yr adeilad blinth brics 'llyfn du' ac mae'r ffasadau wedi'u gorffen gyda chymysgedd o rendr gwyn, cladin pren fertigol, a cherrig cymysg. Mae blaen y siop yn wynebu i'r gorllewin ac yn cynnwys canopi a lobi allanol sy'n diffinio'r brif fynedfa a chilfan y trolïau. Mae 'rhuban' o ffenestri wedi'i rannu â cholofnau cerrig yn amrywio'r ochr sy'n wynebu'r cyhoedd ac yn caniatáu i olau naturiol fynd i lawr y

siop.

Mae'r cais yn nodi y byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu hyd at 40 o swyddi newydd yn lleol, yn ogystal â swyddi adeiladu tymor byr.

### Pentref Bwyd

Mae'r pentref bwyd arfaethedig yn cynnwys tri phod arddangos o bren parod a ddefnyddir i helpu i hyrwyddo cynnyrch a chynhyrchwyr lleol ac at ddibenion addysgol, fel rhan o fenter ehangach Canolfan Tir Glas. Bydd y podiau yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer addysg ac arddangos rhaglenni/gweithgareddau amrywiol, a byddant yn cael eu defnyddio o bryd i'w gilydd ar gyfer manwerthu ar raddfa fach.

Bydd y podiau i'r gorllewin o siop Aldi, ar ochr arall i'r maes parcio ar gyfer Aldi, ac yn agos i Heol Pontfaen a'r fynedfa newydd. Mae'r podiau'n darparu cyfanswm o 68 metr sgwâr o arwynebedd llawr mewnol gros (GIA). Bydd gan bob pod arwynebedd llawr mewnol o tua 23 metr sgwâr a byddant yn un llawr o uchder, yn mesur 3.5 metr o uchder.

### Y Pafiliwn

Bydd y Pafiliwn rhestredig presennol yn cael ei adnewyddu i ddarparu cyfleusterau newid newydd ar gyfer timau chwaraeon a grwpiau cymunedol. Bydd cynllun mewnol yr adeilad yn aros yr un fath i raddau helaeth, ar wahân i adleoli'r toiledau a'r gegin a fydd yn cael eu moderneiddio ynghyd ag adnewyddu'r ffabrig mewnol. Mae mwy o fanylion ar gael yn adroddiad cysylltiedig yr adeilad rhestredig.

### Gwaith Cysylltiedig

Mae'r cais yn cynnwys pwynt mynediad newydd a rennir o Heol Pontfaen, gwelliannau i'r briffordd oddi ar y safle, llefydd parcio, gwaith tirlunio ychwanegol a system ddraenio gynaliadwy.

## **POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

### **Polisiau Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol**

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12, Chwefror 2024)
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 4: Datblygiad manwerthol a masnachol
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 10: Gorchmynion cadw coed
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 11: Sŵn (1997)
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 12: Dylunio (2016)
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 15: Datblygu a pherygl llifogydd (2004)
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 16: Chwaraeon, hamdden a mannau agored
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 18: Trafnidiaeth
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 23: Datblygu Economaidd (2014)
- Nodyn cyngor technegol (TAN) 24: Yr amgylchedd hanesyddol
- Canllawiau arfer gorau Cadw: Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru (2017)

### **Polisiau Cynllunio Lleol Perthnasol**

Mae polisiau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth ystyried y cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S02 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol
- LU12 Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd sydd heb eu Neilltuo
- LU18 Cynigion Manwerthu Ledled y Sir
- LU19 Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol
- LU22 Darpariaeth Gymunedol
- LU30 Diogelu
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM07 Ardaloedd Cadwraeth
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirwedd
- DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- DM19 Tirweddau Hanesyddol a Diwylliannol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- DM22 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol

Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol a fabwysiadwyd:

- Canllaw Cynllunio Atodol: Mannau Agored 2014
- Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Ebrill 2014
- Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion, 2015
- Canllaw Cynllunio Atodol: Asesiad Trafnidiaeth 2015

- Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio, 2015
- Cadwraeth Natur, 2015

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

### DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn o fewn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

### DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- gwaredu neu leihau'r anafanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig pan fydd yr anghenion hyn yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhoddyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

### DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth roi'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

## YMATEBION I'R YMGYNGHORI

### Ymatebion yr Ymgynghoreion Statudol:

- **Cyngor Tref Llambod** - Ni dderbyniwyd sylw.
- **Priffyrdd** - Argymell amodau.
- **Draenio Tir** - Y cyngor arferol. Angen cymeradwyaeth SuDS.
- **Ecoleg** - Argymell amodau. Daw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) i'r casgliad nad oes effaith andwyol ar ardal cadwraeth arbennig Afon Teifi.
- **Swyddog Coed** - Sylwadau / Argymell amodau.
- **Diogelu'r Cyhoedd** - Argymell amodau.
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Argymell amodau.
- **Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru** - Dim gwrthwynebiad/sylwadau i'w gwneud.
- **Dŵr Cymru** - Argymell amodau.
- **Chwaraeon Cymru** - Dim gwrthwynebiad
- **Dŵr Cymru** - Argymell amodau, a chadarnhad bod y caniatâd amgylcheddol ar gyfer gwaith trin dŵr gwastraff cysylltiedig wedi'i adolygu ar sail yr amcanion diwygiedig ar gyfer cadwraeth ac ansawdd dŵr.

Mae'r Aelod Lleol wedi danfon sylwadau yn cefnogi'r cais am y rhesymau canlynol:

- Mae llawer iawn o bobl Llambod a'r cylch ar hyn o bryd yn teithio i Aldi's a Lidl yng Nghaerfyrddin gan fod yr archfarchnadoedd yma yn ddrud.
- Mae Aldi yn rhedeg eu harchfarchnadoedd yn ddwyieithog a byddant yn cyflogi llawer of staff lleol.
- Byddai ein teuluoedd difreintiedig ac eraill yn elwa o siopa yn Aldi's yn sicr ac yn cynnig cyfleoedd gwaith.
- Mae'r Brifysgol yn barod wedi ymrwngyn i ail ddatblygu'r Pafiliwn sy'n adeilad cofrestredig ac mewn cyflwr gwael a dau pod ar gyfer defnydd y Gymuned.
- Bydd y cae dal at ddefnydd chwaraeon gan na fydd y datblygiad yn cymeryd y safle i gyd.
- Bydd y maes parcio yn gyfleus ac am ddim a gyferbyn a'r Creuddyn sy'n nepell i'r dref.
- Roedd rhai yn poeni byddai nifer y ceir yn dod i mewn yn codi ond yn wir bydd yn arbed nifer y ceir sy'n mynd allan o Llambod ac yn codi defnydd (football) y dref.

### Ymatebion yr Ymgynghoreion Trydydd Parti:

#### Cefnogi-

- Ei hangen ar gyfer y gymuned leol
- annog pobl i siopa'n fwy yn lleol drwy ddarparu mwy o ddewis ac archfarchnad fforddiadwy
- hygyrch i ddefnyddwyr sgwter/cadair olwyn
- ni fydd yn rhaid i drigolion lleol deithio i Gaerfyrddin/Aberteifi/Aberystwyth i brynu bwyd
- manteision amgylcheddol ac ansawdd aer am nad yw trigolion yn gorfod teithio ymhellach i ffwrdd
- creu swyddi yn lleol
- cynyddu nifer yr ymwelwyr i ganol y dref a fydd yn dod â mwy o fasnach i fusnesau eraill
- cefnogi'r gymuned a'r ardal leol

- Mwy o ddewisiadau bwyd
- dod ag arian adfywio / buddsoddiad ar gyfer busnesau eraill
- dod â budd i fusnesau eraill
- gwella/ adfywio'r dref
- Cymhelliant newydd i ddod â phobl i'r dref i siopa, ar gyfer twristiaeth ac addysg
- Mae angen yn fawr uwchraddio'r cyrsiau yn y Brifysgol
- Hybu'r economi leol
- Cefnogi mentergarwch cymunedol
- helpu i wneud y dref yn ddeniadol i dwristiaid a phobl leol
- Gwella cyfleusterau chwaraeon
- ardaloedd natur a bioamrywiaeth
- lleihau llygredd aer drwy leihau gwibdeithiau mewn cerbydau i siopau eraill Aldi
- Ymdeimlad newydd o gymuned
- Datblygu gan gydweddu â'r ardal gyfagos
- O fewn pellter cerdded hawdd i ganol y dref
- Bonws i weld y pafiliwn chwaraeon rhestredig, sy'n dirywio, yn cael ei achub at ddefnydd y gymuned
- Bydd y cae chwarae yn parhau
- Denu mwy o fyfyrwyr a fydd yn achub y brifysgol.

Cyflwynwyd deiseb a oedd yn cefnogi'r datblygiad ac arni lofnodion 122 o bobl.

### Sylwadau / Pryderon / Gwrthwynebiadau -

- Effaith y traffig ychwanegol ar Heol Pontfaen.
- Effaith ar barcio ar y ffordd, angen ystyried y parcio ar y ffordd o ganlyniad i'r uned fusnes ar ochr arall y ffordd.
- Ystyriwch barc sglerfrio/bmx i bobl ifanc, i'w denu oddi ar y strydoedd.
- Dim ymgynghori ar effaith y datblygiad ar breswylwyr Cartref Gofal Preswyl Hafan y Deg – cilfan lwytho wedi'i lleoli 25m i ffwrdd o'r ffenest a bydd yn cael effaith ar yr olygfa, sŵn, goleuadau ac aflonyddwch arall. Byddai'r ffens arfaethedig yn cael effaith.
- Dim asesiad annibynnol o fanwerthu. Dylai'r asesiad hefyd ystyried yr effaith ar Spar Tregaron a siop Pont Llanfair.
- Gwneud niwed i'r dref.
- Yn mynd yn groes i bolisi cynaliadwyedd Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Mae canol y dref eisoes yn dioddef gyda siopau gwag; angen canolbwyntio ar systemau bwyd lleol.
- Mae'r siopau bwyd presennol yn Llambod yn ddigon i ddiwallu anghenion y dref a'r ardal gyfagos.
- Cystadleuaeth annheg i'r gymuned fwyd yn lleol.

## CASGLIAD

Dywed Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004: "Os rhoddir ystyriaeth i'r cynllun datblygu er mwyn gwneud penderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, bydd yn rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall."

Mae'r cynlluniau datblygu perthnasol ar gyfer Ceredigion yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Chynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (CDLI).

Yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, pe bai polisi yng Nghymru'r Dyfodol yn gwrthdaro â pholisi o fewn CDLI Ceredigion, dylid datrys y gwrthdaro drwy fynd o blaid y polisi yng Nghymru'r Dyfodol. Mae hyn oherwydd mai Cymru'r Dyfodol yw'r cynllun datblygu diweddaraf i gael ei fabwysiadu. Er bod y CDLI presennol wedi cyrraedd ei ddyddiad gorffen, hwn yw'r cynllun datblygu lleol statudol hyd nes y bydd un newydd yn cael ei fabwysiadu.

### Egwyddor Datblygu

Cymru'r Dyfodol yw'r cynllun datblygu cenedlaethol ac mae'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Yn unol â'r Strategaeth Ofodol, dylid canolbwyntio twf yn y Canolbarth yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol, lle dylai datblygiadau ddiwallu anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol rhanbarthol Canolbarth Cymru. Saif Llanbedr Pont Steffan o fewn Ardal Twf Rhanbarthol Dyffryn Teifi.

At ddibenion y polisi cynllunio lleol, mae safle'r cais o fewn ffin anheddiad Canolfan Gwasanaethau Trefol Llambod. Mae'r safle y tu allan i'r Ardal Gadwraeth a ffin Canol y Dref ac nid yw wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiad o fath penodol.

Mae Polisi S01 y CDLI yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r datblygiadau i'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol gan mai dyma'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn y Sir. Mae Polisi S02 yn nodi y bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu yng Nghanolfan Gwasanaethau Trefol Llanbedr Pont Steffan os bydd yn cyfrannu at ei rôl isranbarthol fel y nodir yn Natganiadau'r Grŵp Anheddiad, ac yn cyfrannu at ei strategaethau adfywio os ydynt yn bod.

Mae tri phrif ffactor y mae angen eu hystyried fel rhan o asesu a yw egwyddor y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol, sef:

1. Datblygiad Manwerthu
2. Datblygu Economaidd
3. Mannau Hamdden / Cymunedol

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi penodi ymgynghorydd allanol sy'n arbenigo mewn polisiau / asesiadau manwerthu i adolygu'r Datganiad Cynllunio a Manwerthu (PRS) a gyflwynwyd. Cynhaliwyd hyn gan Reeves Retail Planning Consultancy (RRPC).

Mae'r rhain yn cael eu trafod yn eu tro isod.

Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad manwerthu, dywed Polisi Cynllunio Cymru y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried yn gyntaf a oes angen rhagor o safleoedd manwerthu (para 4.3.14) gyda'r pwyslais ar sefydlu angen meintiol (para 4.3.15). Mae hefyd yn gweithredu polisi 'canol y dref yn gyntaf' mewn perthynas â lleoli datblygiad manwerthu a masnachol newydd. Wrth roi'r polisi hwn ar waith, dylid mabwysiadu dull dilyniannol o weithredu gan roi blaenoriaeth i leoli datblygiadau newydd mewn canolfan fanwerthu a masnachol sydd wedi'i diffinio yn hierarchaeth canolfannau'r cynllun datblygu (para 4.3.18). Os nad oes safle neu adeilad addas i ddiwallu'r angen a nodwyd mewn canolfan neu ganolfannau manwerthu a masnachol, yna dylid rhoi ystyriaeth i safleoedd ar gyrion y canol, ac os nad oes safleoedd o'r fath yn addas neu ar gael, dim ond wedyn y dylai safleoedd y tu allan i'r canol mewn lleoliadau sy'n hygyrch drwy ddewis o ddulliau teithio gael eu hystyried, gan gynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus (para.4.3.19).

Hefyd dywed Polisi Cynllunio Cymru na ddylai datblygiadau manwerthu newydd y tu allan i'r canol fod ar raddfa nac o fath nac mewn lleoliad sy'n debygol o danseilio bywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd canolfannau manwerthu. Ni ddylid eu caniatáu os ydynt yn debygol o beryglu'r strategaeth fanwerthu yn y cynllun datblygu (para 4.3.20).

Rhoddir canllawiau pellach yn TAN4 Datblygiad Manwerthu a Masnachol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r cais hwn. Ymhlith y paragraffau mwyaf perthnasol y mae:

- Amcan 2, sy'n ceisio cynnal a gwella bywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd canolfannau manwerthu a masnachol;
- paragraff 6.3 sydd, er nad yw'n hybu unrhyw fethodoleg benodol (PRS, paragraff 4.39) yn nodi sut y cynhelir asesiadau o anghenion manwerthu meintiol fel arfer;
- paragraff 6.7, sy'n ei gwneud yn glir ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw un o'r agweddau penodedig ar angen ansoddol yn gallu cyfiawnhau, ar eu pen eu hunain, ddatblygiad manwerthu newydd. Rhoddir enghreifftiau o geisiadau a allai gyfiawnhau datblygiad o'r fath;
- paragraff 7.1, sy'n nodi'r drefn ar gyfer ystyried safleoedd i'w datblygu. Mae'n nodi, ar gyfer safleoedd y tu allan i'r canol, y dylid dewis safleoedd tir llwyd sydd - neu fydd - yn cael eu gwasanaethu'n dda gan amryw ddulliau trafndiaeth ac sy'n agos at ganolfan fanwerthu a masnachol sefydledig;
- paragraff 8.3, sy'n nodi'r ystod o feini prawf sy'n sail i asesu effaith geisiadau y tu allan i'r canol neu ar y cyrion.

O ran polisiau cynllunio lleol, mae'r polisiau mwyaf perthnasol sy'n cyfeirio at fanwerthu i'w cael ym mholisiau LU18 a LU19. Dyma'r prif feini prawf sy'n berthnasol i'r datblygiad arfaethedig hwn:

- mae'n cyd-fynd â Pholisiau S01 ac S02 y CDLI
- ni fyddai'n peri gorgyflenwad amlwg o nwyddau cyfleustra, cymharol a swmpus yn y Ganolfan Wasanaethu berthnasol.
- Ni fyddai defnydd A3 yn tarfu'n annerbyniol ar drigolion y tai cyfagos nac yn effeithio'n andwyol ar amwynder
- oni bai eu bod o fewn ffiniau canol y dref, bydd Asesiad Effaith Manwerthu ynghlwm wrth geisiadau ar gyfer unedau o fwy na 800 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros
- nid yw'n cael effaith negyddol sylweddol, yn unigol nac yn gronnol, ar fywiogrwydd a hyfywedd canol presennol y dref.

Mae Astudiaeth Manwerthu Rhanbarth De-orllewin Cymru a baratowyd gan Gyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'i gyhoeddi yn 2017, hefyd yn ystyriaeth berthnasol.

Mae'r Datganiad Cynllunio a Manwerthu (PRS) a gyflwynwyd fel rhan o'r cais o'r farn bod y safle ar gyrion y canol at ddibenion polisiau manwerthu, gan ei fod tua 270 metr o ffin canol y dref. Mae TAN 4 yn rhoi ffigwr pellter o tua 200-300m ar gyfer safleoedd ar gyrion y canol, fodd bynnag, mae hefyd yn nodi y gallai fod yn briodol defnyddio pellter byrrach os yw'r ganolfan yn un fach (paragraff 7.4). Bernir y byddai'n fwy priodol gweld y safle fel un y tu allan i'r canol o ystyried maint bach canol tref Llanbedr Pont Steffan, dim ond rhyw 300m o'r dwyrain i'r gorllewin, a'i statws fel canolfan ail haen yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mewn termau ymarferol, nid yw'r gwahaniaeth barn hwn yn effeithio ar y dull o wneud y prawf dilyniannol/ cymalog, na'r casgliadau a gyrhaeddir.

Gan yr ystyrir bod safle'r cais wedi'i leoli y tu allan i ganol tref Llanbedr Pont Steffan, er mwyn cydymffurfio â'r polisi bydd angen gwneud y canlynol:

1. dangos bod angen y gofod llawr a gynigir, gyda'r pwyslais ar yr angen meintiol;
2. dangos y byddai datblygu'r safle yn unol â'r prawf cymalog;
3. ystyried effaith y datblygiad, gan roi ystyriaeth i'r ystod o feini prawf a nodir yn TAN 4 gan gynnwys yr effaith ar fywiogrwydd a hyfywedd y canol trefi presennol a'r buddsoddiad ynddynt.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys dau ddatblygiad manwerthu ar wahân, sef y prif siop fwyd a'r tri phod arddangos/ y pentref bywd. Nid yw union gynnwys manwerthu'r olaf yn hysbys ond at ddibenion yr asesiad hwn, tybiwyd y byddant yn darparu gofod llawr manwerthu ac felly yn cael eu hasesu ar sail y gofynion polisi perthnasol.

Mae'r PRS a gyflwynwyd yn dibynnu ar yr arolwg cartrefi a gynhaliwyd i lywio'r angen am fanwerthu a'r effaith ar y siop fwyd. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ystyried yn fuddiol ac yn ddibynadwy gan nad yw'n darparu dadansoddiad digon manwl. O ganlyniad, mae maint y sampl yn ardal Llanbedr Pont Steffan yn fach ac nid yw'n bosib defnyddio'r arolwg i gael gwybodaeth ddibynadwy am batrymau ac anghenion masnachu yn Llanbedr Pont Steffan. Ystyrir ei bod yn fwy priodol defnyddio'r un maes astudio a nodir yn Astudiaeth Manwerthu Rhanbarth De-orllewin Cymru 2017.

## Yr Angen am Fanwerthu

### Angen Meintiol

Ystyriwyd bod yr angen am ragor o arwynebedd llawr manwerthu yn Llanbedr Pont Steffan yn rhy fach pan fabwysiadwyd y CDLI. Ni ystyriwyd bod angen clustnodi safleoedd i ddarparu ar gyfer yr angen cyfyngedig a nodwyd gyda chyfleoedd ar gael ar y stryd fawr bresennol. Mae Astudiaeth Ranbarthol 2017 hefyd yn nodi mai ychydig iawn o gapasiti sydd yn yr ardal ac mai ond 27-55 metr sgwâr net o arwynebedd llawr sydd ei angen yn ychwanegol erbyn 2036. Mae'r ffigurau a baratowyd yn y PRS yn dangos capasiti cyfyngedig o £5.79m ar gyfer nwyddau cyfleus erbyn 2026, sef y capasiti ac eithrio ystyriaeth a wneir ar gyfer y siop Aldi arfaethedig yn Aberystwyth, neu ar gyfer unrhyw siop gyfleustra arall a ganiateir yn ardal gyfan yr astudiaeth, sy'n ardal ddaearyddol fawr. Os ystyrir siop Aldi yn Aberystwyth, gan ddybilio felly y bydd yn cael ei hadeiladu, mae dadansoddiad y PRS yn cadarnhau nad oes digon o gapasiti i gefnogi'r datblygiad arfaethedig hwn unwaith y bydd yr ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys yn yr asesiad o anghenion. At hynny, nid oes digon o gapasiti hyd yn

oed os tybir bod cyfradd gadw'r farchnad yn yr ardal astudio yn cynyddu gan 5%, sy'n gymharol fawr.

Y casgliad felly yw nad oes angen meintiol am y siop arfaethedig ac nad oes tystiolaeth o or-fasnachu sylweddol yn siopau bwyd Llanbedr Pont Steffan.

### Angen ansoddol

Mae'r cais yn awgrymu y bydd y datblygiad arfaethedig yn gwella cystadleuaeth a'r dewis i bobl ac yn cadw gwariant yn Llanbedr Pont Steffan, gan leihau teithiau diangen mewn ceir. Fodd bynnag, nid yw'r arolwg o gartrefi a ddarperir yn gallu cefnogi hyn gan nad yw maint y parth astudio yn gallu rhoi gwybodaeth berthnasol am golli masnach o Lanbedr Pont Steffan. Ystyrir nad oes angen ansoddol am y datblygiad arfaethedig am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'n cefnogi amcanion na strategaeth fanwerthu'r CDLI;
- Ni fydd yn hygyrch iawn wrth gerdded, beicio na thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Dim tystiolaeth y bydd y cynnig yn cyfrannu at ostyngiad sylweddol mewn teithiau ceir. Yn wir, gallai wneud y gwrthwyneb os yw'n denu masnach o'r tu allan i ardal Llanbedr Pont Steffan ei hun;
- Ni fydd yn cyfrannu at gyfleoli cyfleusterau mewn canolfannau manwerthu a masnachol presennol, am nad yw mewn canolfan;
- Ni fydd yn cyfrannu'n sylweddol at fywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol y dref, gan ei bod wedi'i lleoli y tu allan i'r canol a bydd yn tynnu masnach i ffwrdd oddi wrth siopau presennol y canol;
- Ni chyflwynwyd tystiolaeth y bydd y cynnig yn lleddfu unrhyw or-fasnachu neu dagfeydd traffig mewn siopau lleol tebyg sy'n bod eisoes;
- Nid yw'n mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a ddiffiniwyd yn lleol o ran ansawdd neu faint ac nid oes yna ardaloedd preswyl newydd sy'n gofyn am ddarpariaeth gyfleus newydd;
- Nid yw Llanbedr Pont Steffan yn cael ei nodi fel ardal dan anfantais ac ni nodwyd bod diffyg darpariaeth o ran nwyddau cyfleus yn yr ardal.

Felly, i gloi, nid oes angen ansoddol am y siop fwyd arfaethedig ar sail polisi.

### Y Podiau / Pentref Bwyd:

Mae'r diffyg eglurder ynghylch y manwerthu a gynigir o fewn y 'podiau' yn ei gwneud hi'n anodd asesu'r angen amdanynt a'u heffaith debygol ar ganol tref Llanbedr Pont Steffan. Mynegwyd pryderon bod potensial i'r unedau hyn fod mewn cystadleuaeth uniongyrchol gyda'r manwerthwyr bach / annibynnol presennol sy'n gweithredu yng nghanol tref Llanbedr Pont Steffan. Mae risg ddamcaniaethol hefyd y gallai'r manwerthwyr presennol symud i'r lleoliad hwn y tu allan i'r canol, gan leihau trosiant ac apêl canol y dref ac arwain at ragor o siopau gwag.

### **Y Prawf Cymalog**

O ran y safleoedd sy'n cael eu hystyried o fewn Llanbedr Pont Steffan, cytunir bod natur y canol yn golygu y byddai'n anodd iawn datblygu siop fwyd newydd debyg i'r hyn sy'n cael ei gynnig, yng nghanol y dref. Cytunir hefyd bod yr unedau gwag a nodwyd ar gyrion y canol yn rhy fach ar gyfer y siop fwyd arfaethedig ac nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymwybodol o unrhyw safleoedd datblygu eraill, boed ar gyrion canol tref Llanbedr Pont Steffan neu y tu allan i'r canol, a allai ddarparu ar gyfer y siop arfaethedig. O ganlyniad, gwelir bod y siop fwyd yn cydymffurfio â'r prawf cymalog am nad oes safleoedd mwy canolog a allai ddarparu ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

O ran y podiau, mae'r PRS yn dweud mai'r bwriad yw lleoli'r Ganolfan Tir Glas arfaethedig mewn tri lle penodol yn y dref. Bydd pencadlys y Ganolfan ar gampws y Brifysgol, tra bydd ganddi bresenoldeb amlwg hefyd yng nghanol y dref ar ffurf canolfan hyfforddi arloesol gyda phentref bwyd i ddathlu ac arddangos cynnyrch lleol ar safle'r cais (hynny yw, y Pentref Bwyd). Bydd y rhain i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd gan roi cyfle unigryw i'r dref a'r Brifysgol gydweithio'n strategol er budd yr economi leol am flynyddoedd i ddod.

Dywed ymhellach na fyddai'n ymarferol adeiladu'r Pentref Bwyd fel elfen annibynnol ar wahân a bod yn rhaid iddo fod ar yr un safle â'r siop fwyd sy'n darparu'r buddsoddiad a fydd yn galluogi'r syniad i gael ei ddatblygu. Mae hefyd yn awgrymu na fyddai'r prydles ar yr unedau yng nghanol y dref yn ddigon hyblyg nac yn hyfyw i feddianwyr y Pentref Bwyd, ac na ellid creu'r Pentref Bwyd pe bai'r unedau'n cael eu gwahanu yng nghanol y dref. Er mwyn i'r cynnig arfaethedig fod yn llwyddiannus, cytunir na fyddai'n briodol gwahanu'r tair uned ond nid yw'n argyhoeddedig fod yn rhaid datblygu'r unedau ar safle'r siop fwyd. Mae'r ddau safle arall sy'n cael eu cyflwyno gan Brifysgol y Drindod Dewi Sant fel rhan o fenter Canolfan Tir Glas o fewn canol y dref neu'n nes at ganol y dref na safle'r cais.

### **Effaith y Manwerthu**

Mae dau brif ffactor sy'n effeithio ar raddfa a difrifoldeb yr effaith ar y canol yn sgil datblygiad manwerthu newydd y tu allan i ganolfan ddiffiniedig. Y rhain yw atyniad masnachol disgwylidig y cynnig ac iechyd presennol y ganolfan yr effeithir arni.

### Iechyd Canol Tref Llambod

Ystyrir bod canol tref Llambod yn dal i fod yn ddibynnol iawn ar y nwyddau cyfleus a ddarperir gan werthwyr cenedlaethol ac annibynnol, ond bod y ganolfan wedi gweld gostyngiad yn nifer ac ystod y manau gwerthu ers 2016. Mae'r ganolfan hefyd wedi colli manwerthwr annibynnol allweddol, a Jewsons ar gyrion y canol, a banc. Mae cyfradd gynyddol y busnesau gwag yn bryder.

Ystyrir bod angen mwy o wybodaeth ar sut mae siopau gwag wedi newid ers 2016. Mae'r data ar gyfer 2022 yn awgrymu y gallai'r siopau gwag fod wedi cynyddu gan bedair uned ond mae angen ystyried maint yr arwynebedd llawr a'r effaith ar yr hyn a gynigir yn y dref yn ogystal ag ar apêl canol y dref.

### Iechyd canolfannau trefol eraill Ceredigion

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y PRS yn anghyflawn gan ei bod yn ystyried iechyd canol tref Llanbedr Pont Steffan yn unig. Mae hyn er bod y PRS yn nodi bod disgwyl i nifer o ganolfannau eraill gael eu heffeithio'n fawr o ran nwyddau cyfleus. Mae'r PRS yn nodi'r effeithiau canlynol:

- effaith o 9.6% ar Costcutter ac effaith o 9.4% ar siopau cyfleustra eraill yn Aberaeron;



- effaith o 9.3% ar Costcutter yng Ngheinewydd;
- effaith o 10.5% ar ganol tref Llandysul;
- effaith o 3.7% ar siopau cyfleustra yng nghanol tref Aberystwyth;
- effaith o 3.4% ar Co-op ac effaith o 5.3% ar fusnesau eraill yng nghanol tref Castellnewydd Emlyn.

O ystyried yr uchod, dylai iechyd y canolfannau hyn fod wedi cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad effaith. Yn absenoldeb gwybodaeth o'r fath, bernir y gallai effaith ar siop gyfleustra o tua 9% gael effaith fawr ar ddyfodol y siop dan sylw, yn enwedig ar adeg pan fo costau byw yn cynyddu'n sylweddol a bod y gwariant ar nwyddau cyfleustra yn gymharol sefydlog neu o bosib yn gostwng. Os bydd dyfodol masnachol siop yn cael ei fygwth a bod y siop yn cau o ganlyniad, ystyrir y gallai hyn fod yn effaith andwyol sylweddol mewn unrhyw ganolfan lle nad oes llawer o ddarpariaeth cyfleustra arall. Felly, mae angen cynnal gwiriadau iechyd ar gyfer Aberaeron a Llandysul.

Rhodddwyd gwybod i'r asiant am y pryderon ynghylch iechyd masnachol Aberaeron a Llandysul a bod angen rhagor o wybodaeth. Hefyd cynhaliwyd cyfarfod i drafod, fodd bynnag, ni chynhwyswyd y wybodaeth hon yn Atodiad Manwerthu 1 (RA1) a gyflwynwyd ar 13-06-2023.

### Tynnu Masnach o lefydd eraill

Faint o fasnach y tybir ei fod yn cael ei dynnu o lefydd eraill yw'r dybiaeth allweddol a fydd yn llywio'r rhagolygon effaith. Felly mae'n bwysig bod y dull a fabwysiadir yn realistig ac yn gadarn. Ar sail canlyniadau arolwg Astudiaeth Manwerthu Rhanbarth De-orllewin Cymru 2017, mae'r siopau sydd yn Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd yn ddibynnol iawn ar fasnach sy'n dod o'r ardal gyfagos, gyda bron i 60% o'u masnach yn dod o drigolion Parth 12 (Llanbedr Pont Steffan). Mae'r gweddill yn dod o dwristiaid (16.2% yw'r amcangyfrif) a'r ardaloedd gwledig o gwmpas. Nid oes rheswm i ddisgwyl y byddai'r siop fwyd arfaethedig yn tynnu masnach mewn ffordd wahanol, o gofio bod prif drefi Ceredigion a gweddill Gorllewin Cymru eisoes yn meddu ar siopau disgownt (Lidl yn Aberystwyth (a bwriad i agor Aldi), Aldi yn Aberteifi ac Aldi a Lidl yng Nghaerfyrddin). Felly byddai disgwyl i'r siop fwyd arfaethedig dynnu'r rhan fwyaf o'i masnach o Barth 12 (Llanbedr Pont Steffan), gyda pheth llif i mewn o Barthau 13 (Aberaeron a Cheinewydd) ac 14 (De Gwledig Aberystwyth a Thregaron) a thwristiaid.

Ar sail y patrymau masnachu cyfredol ym Mharth 12 (Llanbedr Pont Steffan), byddai'r prif ddargyfeiriad masnachol tuag at y siop fwyd arfaethedig yn dod o siopau presennol Sainsbury's a Co-op. Byddai rhywfaint o ddargyfeirio masnachol o'r siopau lleol hefyd, er y derbynnir y byddai hyn yn llai o ystyried bod y siopau hyn yn darparu nwyddau gwahanol ac eisoes yn masnachu yn erbyn dwy archfarchnad fawr genedlaethol. Fodd bynnag, byddai'r elfen hon o fasnachu yn agored i effaith gan y podiau manwerthu.

Bydd y potensial i adfachu masnach sy'n cael ei gollu o Barth 12 (Llanbedr Pont Steffan) ar hyn o bryd yn fach, ond byddai disgwyl yr adfachir rhywfaint oddi wrth Aldi Caerfyrddin o ystyried bod arolwg 2017 yn dangos mai hon yw'r brif siop Aldi a ddefnyddir gan drigolion Llanbedr Pont Steffan (11.5%).

O ran llif i mewn, ystyrir nad oes llawer o botensial i Aldi gynyddu llif o Barth 11 (Llandysul ac Aberporth) o ystyried bod Aberteifi yn agos, na chwaith o Barth 14 (De Gwledig Aberystwyth a Thregaron) o ystyried bod Aberystwyth yn agos. Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu y bydd yn tynnu'n bennaf o'r siopau llai / annibynnol yng nghanol tref Llambod (gan ddenu 7.2% o'r 11.6% o fasnach). Nid yw trigolion Parth 13 (Aberaeron a Cheinewydd) yn defnyddio fawr o siopau Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd, gyda'r siopau llai / annibynnol eto yn denu'r rhan fwyaf o'r fasnach atynnu gyfyngedig. Fodd bynnag, cydnabyddir bod safle'r cais yn ganolog rhwng Aberystwyth ac Aberteifi ac felly gallai darpariaeth newydd yn Llanbedr Pont Steffan ddenu masnach o'r ardal honno. Byddai hyn yn fwyaf tebygol o dynnu oddi wrth y disgowntwyr yn Aberystwyth ac Aberteifi a siopau canol tref Aberaeron.

O ran twristiaid, disgwylir y byddai'r atynnu masnachol yn dod o'r un siopau gan na fyddai disgwyl i siop fwyd ychwanegol yn Llanbedr Pont Steffan newid nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r dref. Yn hytrach, byddai disgwyl i'w gwariant yn y siopau bwyd presennol ddargyfeirio i'r siop fwyd newydd.

Felly, i gloi, ystyrir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn denu masnach sylweddol o'r Sainsbury's a'r Co-op yn Llanbedr Pont Steffan, gan ddenu masnach go fawr o ran canrannau o Aberaeron a Llandysul debyg iawn.

### Podiau / y Pentref Bwyd a Gwerthiant nwyddau cymharol

Bernir hefyd fod angen ystyried effaith bosib y podiau masnachu a'r nwyddau cymharol yn y siop fwyd, er y gallai'r ddau fod yn fach o gymharu â throsiant Aldi gyda nwyddau cyfleus. O ran nwyddau cymharol, mae natur dros dro/ cyfnewidiol y nwyddau manwerthu yn Aldi yn debygol o olygu y byddai o leiaf rhan o'r atynnu masnachol ar nwyddau cymharol yn dod o ganol tref Llanbedr Pont Steffan. Nid yw'n bosib rhagweld ffigur atynnu meintiol ar gyfer y podiau manwerthu gan nad yw'r cynnyrch a gynigir yn eglur, fodd bynnag ymdengys y byddai unrhyw siop fwyd fach mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r manwerthwyr bach / annibynnol yng nghanol y dref, ac yn wir, o ddarparu'r unedau hyn gellid annog y busnesau presennol i adleoli. O ganlyniad, gallai'r podiau gael effaith andwyol amlwg ar ganol y dref, er gwaethaf eu maint bach.

### Effaith ar fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat sydd eisoes ar waith, wedi'u hymrwymo neu wedi'u cynllunio mewn canolfan neu ganolfannau yn y dalgyllch

Nid oes yna fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat sydd eisoes ar y gweill yng nghanol tref Llanbedr Pont Steffan nac yn y Canolfannau a nodwyd uchod. Fodd bynnag, gan fod siopau cyfleustra yn bwysig iawn i iechyd cyffredinol canol trefi, mae'n bosibl y byddai penderfyniadau buddsoddi yn cael eu heffeithio'n andwyol os gwelir bod masnach ac ymwelwyr yn cael eu dargyfeirio (h.y. mae'r PRS yn rhagweld effaith ar siopau cyfleustra o tua 10% yn Aberaeron a thros 10% yn Llandysul). Mae'r PRS yn awgrymu y gallai'r datblygiad fod yn gatalydd ar gyfer datblygiad newydd o fewn Llanbedr Pont Steffan, ond ystyrir bod hyn yn senario annhebygol iawn o ystyried y byddai llawer o'r fasnach i'r siop fwyd yn dod o'r archfarchnadoedd sydd eisoes yn y dref. Serch hyn, os oes yna fanteision posibl fe ddisgwylir y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni ar safle'r cais yn hytrach nag yng nghanol y dref, gan niweidio canol y dref ymhellach.

### Effaith ar fywiogrwydd a hyfywedd y canol

Nid yw'r rhagolygon y bydd Sainsbury's yn colli 10.8% o fasnach yn debygol o fod yn ddigon i arwain at gau'r siop, ond gallai'r lefel hon o ddargyfeirio masnach arwain at ostyngiad amlwg yn nifer y siopwyr yn y canol. Byddai hyn yn niweidiol i fusnesau eraill yng nghanol y dref o ystyried mai Sainsbury's yw'r prif angor a meddiannydd yr uned fwyaf yn y ganolfan. Gallai'r rhagolygon y bydd siopau bwyd eraill yng nghanol y dref yn colli 10.1% o fasnach, ar sail nwyddau cyfleus Aldi yn unig, arwain at gau un neu fwy o'r siopau presennol. Mae'r

tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd yn cynyddu os ystyrir hefyd effaith y podiau manwerthu. Yng nghyd-destun canolfan lle mae cyfraddau cynyddol y siopau gwag eisoes yn bryder, gallai hyn ynddo'i hun fod yn ddigon i nodi bod unrhyw effaith yn andwyol iawn. Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar y rhagolygon yn y PRS parthed dargyfeirio masnach, ond mae'r Ymgynghorydd Manwerthu o'r farn fod yr effaith ar Sainsbury's yn sylweddol uwch ac y gallai fygwth dyfodol y siop. Pe bai'r siop yn cau, byddai hyn yn cael effaith andwyol sylweddol ar ganol tref Llanbedr Pont Steffan. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadarnhau bod y cyfraddau siopau gwag yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Chwefror 2024 yn 10.7%.

Nid yw effaith y cynnig wedi'i gyfyngu i ganol tref Llanbedr Pont Steffan, gyda'r rhagolygon yn awgrymu effaith gymharol uchel ar ganol trefi Aberaeron a Llandysul. Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn risg sylweddol i'r ddwy ganolfan hon. Yn Aberaeron, mae iechyd y ddarpariaeth cyfleustra yn bwysig er mwyn sicrhau bod y ganolfan yn parhau i ddiwallu anghenion y trigolion lleol o ddydd i ddydd, yn ogystal â thwristiaid. Yn Llandysul, lle mae'r ddarpariaeth cyfleustra eisoes yn gyfyngedig, mae'n hanfodol fod y Spar yn parhau i fasnachu.

### **Crynodeb o'r Casgliad**

Nodir crynodeb o gasgliad Reeves Retail Planning Consultancy isod:

- Nid oes angen meintiol nac ansoddol am y siop fwyd arfaethedig yn Llanbedr Pont Steffan;
- Dangosir bod y siop fwyd arfaethedig yn cydymffurfio â'r prawf cymalog gan nad oes safleoedd mwy canolog a allai ddarparu ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, ni ellir dweud yr un peth am y podiau, lle ystyrir y gellir ac y dylid darparu'r rhain yng nghanol y dref. Felly mae'n methu â chydymffurfio â'r prawf cymalog;
- Byddai disgwyl i'r siop fwyd arfaethedig gael effaith andwyol fawr ar y Sainsbury's presennol yng nghanol tref Llanbedr Pont Steffan. Hyd yn oed pe na bai'n arwain at gau'r siop, byddai nifer y siopwyr yn y canol yn lleihau'n sylweddol, gyda sgil-ffaith ar fusnesau eraill canol y dref. Byddai hyn yn effeithio'n andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd canol y dref, a allai yn ei dro gynyddu nifer y siopau gwag drachefn yn y ganolfan, ar adeg pan fo mater siopau gwag ar gynydd eisoes yn bryder;
- Disgwylir i'r siop fwyd arfaethedig gael effaith andwyol fawr ar ganol trefi Aberaeron a Llandysul, gyda cholledion o tua 10% o gyfanswm y fasnach cyfleustra yn cael eu rhagweld. Mae hyn yn bryder mawr o ystyried pwysigrwydd y ddarpariaeth cyfleustra i iechyd cyffredinol y ddwy ganolfan ac i'w rôl fel canolfannau gwasanaethu ar gyfer eu cymunedau lleol;
- Mae'r diffyg eglurder ynghylch y manwerthu a gynigir o fewn y 'podiau' yn ei gwneud hi'n anodd asesu'r angen amdanynt a'u heffaith debygol ar ganol tref Llanbedr Pont Steffan. Fodd bynnag, mae pryder y gallai'r unedau hyn fod mewn cystadleuaeth uniongyrchol gyda'r manwerthwyr bach/annibynnol sy'n gweithredu yng nghanol tref Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd.
- Nid yw'n glir pam na ellid gosod y podiau yn fwy canolog drwy eu cysylltu gyda chanolfan hyfforddi Canolfan Tir Glas yng nghanol y dref neu â'r pencadlys ar gampws y Brifysgol;
- Os rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig, argymhellir y dylai'r caniatâd fod yn destun amodau sy'n sicrhau bod y datblygiad yn cael ei adeiladu a'i redeg yn unol â'r asesiad manwerthu a ddarperir ac na chaniateir i'r defnydd newid dros amser.
- Felly i gloi, nid yw'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r polisi cynllunio manwerthu a dylid ei wrthod.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno'n llwyr ag asesiad, casgliad ac argymhelliad Reeves Retail Planning Consultancy.

### **Atodiad Manwerthu ac Adolygu Pellach**

Mewn ymateb i'r adolygiad cychwynnol gan Reeves Retail Planning Consultancy (RRPC), cyflwynodd yr asiant Atodiad Manwerthu 1 (RA1) ar 13-06-2023. Ystyriwyd hyn ymhellach gan RRPC a darperir crynodeb isod:

Nid yw'r RA1 wedi darparu gwybodaeth newydd o bwys i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd ynghylch diffygion y PRS. Nid yw'r angen a'r asesiadau effaith wedi cael eu diweddarau mewn unrhyw ffordd, ac nid oes gwybodaeth ychwanegol wedi'i darparu ar arferion siopa yn ardal Llanbedr Pont Steffan. Mae'r asiant yn parhau i ddibynnu ar ddata ar gyfer Parth 1 sy'n cwmpasu ardal sylweddol fwy sy'n ymestyn y tu hwnt i ffin naturiol Llanbedr Pont Steffan ac sy'n cynnwys nifer o drefi eraill.

O ganlyniad, nid oes dim yn RA1 sy'n peri i gyngor gwreiddiol RRPC newid, felly mae'r cyngor gwreiddiol hwn yn aros yr un fath.

O ran y defnydd manwerthu a wneir o'r podiau, dywed RA1 na fyddai'r pentref bwyd arfaethedig yn ddefnydd manwerthu Dosbarth A1 gan y byddai'r podiau yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer rhaglenni addysgol ac i arddangos. Fodd bynnag, disgwylir peth gwerthiant manwerthu. Felly er bod yr eglurhad yn cael ei groesawu, bydd dal angen rhyw fath o amod. Byddai'n well os byddai'r amod yn gwahardd pob gwerthiant manwerthu, ond byddai cyfyngu unrhyw werthiant manwerthu i fod yn ategol i'r prif ddefnydd addysgol ac arddangosiadol yn gallu bod yn dderbyniol.

#### **2. Datblygu Economaidd**

O ran datblygiad economaidd, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylid cynnwys y manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau (para.5.9.25). Mae'r ffurflen gais yn nodi y byddai'r cais yn arwain at gyfanswm cyferth ag amser llawn o 30 o swyddi, gyda'r Datganiad Cynllunio yn nodi mai dewis Aldi fyddai recriwtio staff yn lleol. Byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn creu cyfleoedd cyflogaeth yn ystod y cyfnod adeiladu.

Fodd bynnag, byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn cael effaith negyddol ar ddatblygiad economaidd gan fod yr asesiad manwerthu a wnaed gan RRPC yn dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar Sainsbury's, canol tref Llanbedr Pont Steffan, yn ogystal ag ar Aberaeron a chanol tref Llandysul.

#### **3. Mannau Hamdden / Cymunedol**

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod mor bwysig yw manau hamdden, gan gynnwys meysydd chwaraeon, i'n hiechyd, ein lles ac amwynder, ac ar gyfer bywyd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd Cymru. Hefyd dywed Polisi Cynllunio Cymru fod cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu at ymdeimlad o le sy'n bwysig i iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol. Mae eu bodolaeth yn aml yn elfen allweddol wrth greu lleoedd hyfyw a chynaliadwy.

Dywed Polisi Cynllunio Cymru, Paragraff 4.5.4:

*Dylid diogelu pob maes chwarae rhag cael ei ddatblygu, boed yn eiddo i gorff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ac eithrio:*

- *Ile y gellir cadw a gwella cyfleusterau orau drwy ailddatblygu rhan fach o'r safle;*
- *Ile y darperir darpariaeth arall yn yr ardal o'r un budd i'r gymuned, gan osgoi colli'r ddarpariaeth dros dro; neu*
- *Ile y mae gormod o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal.*

Mae Polisi CDLI LU22 'Darpariaeth Gymunedol' yn cefnogi datblygu darpariaeth gymunedol newydd ac yn ceisio gwrthwynebu colli neu newid defnydd y cyfleusterau cymunedol presennol oni bai:

- Y gellir gwneud darpariaeth amgen sydd o leiaf o werth cyfwerth i'r gymuned leol naill ai yn yr anheddiad neu yn yr aneddiadau eraill sy'n rhan o'r Grŵp Aneddiadau. Yn benodol o ran manau agored, dylai'r ddarpariaeth amgen fod yn well a dylid ei lleoli'n agos at y ddarpariaeth gyfredol;
- Y gellir dangos bod y ddarpariaeth gymunedol bresennol yn amhriodol neu mae tu hwnt i anghenion cymunedol yr anheddiad hwnnw; neu
- Nad yw'r defnydd cyfredol yn ddichonadwy mwyach ac nad yw'n ddichonol sefydlu defnydd cymunedol arall.

Mae'r testun ategol yn egluro bod 'darpariaeth gymunedol' yn cynnwys caeau chwaraeon.

Dywed y PRS y bydd y cynnig yn arwain at gollu un o'r ddau gae ar safle'r cais. Mae'n mynd ymlaen i ddweud nad yw'r ddau gae yn cael eu defnyddio'n ffurfiol gan unrhyw glybiau ar hyn o bryd, ac nid ers sawl blwyddyn. Anfynych y defnyddir y caeau gan y gymuned leol ar gyfer chwaraeon, ac nid yw'r ddau gae wedi bod yn cael eu defnyddio ar yr un pryd ers sawl blwyddyn. Mae'n dweud mai'r unig ddefnydd presennol a wneir o'r safle yw gweithgareddau anffurfiol megis cerdded cŵn, ac felly mae'n amlwg nad yw'r safle yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial ac nad oes galw am y ddau gae chwarae presennol. O ran y ddarpariaeth ehangach yn yr ardal, mae'r PRS yn dweud bod caeau rygbi a phêl-droed o ansawdd uwch yn cael eu darparu ar Heol y Gogledd yn Llambled ac yng Nghanolfan Hamdden Llambled sy'n cael eu defnyddio'n aml. Mae'r PRS hefyd yn dweud y bydd y cais yn helpu i annog pobl i ddefnyddio'r cae chwarae a fydd yn parhau ar y safle, a hynny drwy wella'r cyfleusterau, mynediad, llefydd parcio a'r cyfleusterau newid yn y pafiliwn. Daw'r PRS i'r casgliad hwn:

- Anaml iawn y defnyddir y caeau presennol ac maent o ansawdd isel;
- mae cyflenwad da iawn o gyfleusterau hamdden eraill mewn manau eraill yn Llambled, sydd o ansawdd gwell na'r cyfleusterau ar safle'r cais;
- bydd y cynnig yn arwain at wella'r pafiliwn rhestredig a fydd yn helpu i annog pobl i ddefnyddio'r cae a fydd yn aros ar y safle.

Felly, mae'r PRS o'r farn fod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a Pholisi LU22 y CDLI.

Yn wreiddiol fe wnaeth Chwaraeon Cymru wrthwynebu'r cais gan nodi y bydd y cynnig yn arwain at gollu dros draean o'r caeau chwarae - 1.15 hectar allan o 3 hectar, ac nid ydynt o'r farn ei bod yn rhan fach o'r safle. Gwnaethant nodi y byddent yn cynnig tynnu'r gwrthwynebiad yn ôl pe bai tystiolaeth foddhaol yn cael ei darparu ynghylch pwyntiau 2 neu 3 o Baragraff 4.5.4 o Bolisi Cynllunio Cymru. Wedi hynny, cysylltodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol â Chwaraeon Cymru i ddweud bod y cyfiawnhad dros gollu'r cae chwarae wedi'i gynnwys yn y 'Datganiad Cynllunio a Manwerthu' a gyflwynwyd. Mewn ymateb, gwnaeth Chwaraeon Cymru dynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai colli'r cae chwarae yn cael effaith ar y ddarpariaeth gymunedol yn Llanbedr Pont Steffan. Fodd bynnag, o ystyried y cyfiawnhad o fewn y PRS, a bod Chwaraeon Cymru wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y byddai'r golled yn cael effaith sylweddol ac felly nid yw'n rheswm dros wrthod.

### **Maint, Dyluniad a'i Effaith Weledol**

Mae Polisi DM06 o'r CDLI yn mynnu bod datblygiad o ddyluniad ansawdd uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun ei leoliad. Mae Polisi DM09 yn nodi y dylid cynllunio datblygiad i sicrhau amgylchedd croesawgar sy'n annog pobl i symud drwyddo yn briodol. Mae Polisi DM17 yn ceisio diogelu'r tirwedd rhag effaith andwyol sylweddol yn sgil datblygiadau newydd. Mae safle'r cais o fewn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Teifi felly mae Polisi DM18, sy'n ceisio diogelu rhinweddau arbennig yr Ardal Tirwedd Arbennig, yn berthnasol hefyd. Mae Polisi DM19 o'r CDLI, sy'n ceisio diogelu tirweddau o bwys hanesyddol a diwylliannol, yn berthnasol hefyd.

Mae'r siop fwyd arfaethedig wedi'i lleoli ar hyd ffin ochr safle'r cais, gyda llefydd parcio a mynediad yn cael eu darparu tua'r blaen. Mae'r siop fwyd ar raddfa fawr ac mae ei dyluniad yn cynnwys uned gyfoes un llawr gyda tho fflat a pharapet, sy'n arferol ar gyfer y fath siop fwyd. Mae'r dyluniad yn cynnwys pren fertigol, carreg leol naturiol a rendr i adlewyrchu dull brodorol Llanbedr Pont Steffan, gan gyfeirio'n benodol at Ganolfan Creuddyn gyferbyn.

O ran symud o gwmpas, mae'r cynnig yn cynnwys croesfannau i gerddwyr a llwybrau troed i ddarparu mynediad diogel i'r siop fwyd ac oddi yno.

O ran y podiau, mae'r rhain ar raddfa fach, gydag uchder o 3.5m, ac maent wedi'u gorchuddio â phren a phaneli *standing seam*, a fydd yn caniatáu iddynt gydweddu â'r siop fwyd a Chanolfan Creuddyn gyferbyn. Ystyrir bod y podiau arfaethedig yn cyflwyno ffurf anarferol wrth ymyl siop fwyd mewn lleoliad y tu allan i'r canol. Byddai datblygiad o'r fath yn fwy priodol yng nghanol trefi ymhlith siopau / ffurfiau adeiledig sy'n bod eisoes, ac mae podiau pren yn cael eu defnyddio gan amlaf at ddibenion dros dro e.e. mewn gŵyl fwyd, adeg y Nadolig ac ati.

Ynglwm wrth y cais y mae Arfarniad Gweledol a Thirweddol sy'n nodi'n gryno:

- Bod y golygfeydd tua'r safle wedi'u cyfyngu a'u cuddio i raddau gan y topograffi, yr anheddiad a'r haenau o llystyfiant o amgylch.
- Ni fyddai allan o'i gyd-destun ac ni fyddai'n cyflwyno elfennau anghyson.

- Byddai plannu coed a pherthi ychwanegol ar y ffiniau ac o fewn y tirwedd mewnol yn meddaldu ac yn lliniaru'r cynnig yn weledol, gan lleihau'r effaith ar yr ardal gyfagos.

Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwrthwynebu'n benodol ddyluniad y cais. Mae hefyd yn cytuno â'r Arfarniad Gweledol o ran y byddai'r effeithiau gweledol yn lleol iawn ac wedi'u cyfyngu i'r golygon sy'n agos i'r safle. Mae'r caeau chwarae, y Pafiliwn a'r wal derfyn wedi nodweddau'r rhan hon o'r tirwedd ers tua 1909, a'r caeau cyn hynny. Ystyrir felly fod y safle presennol yn rhan sylweddol a phwysig o gymeriad gweledol a hanesyddol y tirwedd a dyma un o'r prif lwybrau i mewn i Lamberd. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn newid nodweddion y tirwedd yn sylweddol drwy gollu'r caeau chwarae, rhan o'r wal derfyn o gerrig, a chyflwyno datblygiad ar raddfa fawr. Felly, ystyrir bod y cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad gweledol a hanesyddol y tirwedd, ac felly nid yw'n cyd-fynd â pholisïau DM06, DM17, DM18 a DM19.

### **Yr Effaith ar leoliad Asedau Treftadaeth**

Mae cais am ganiatâd adeilad rhestredig wedi'i gyflwyno ar y cyd â'r cais hwn, ar gyfer y gwaith o adnewyddu'r Pafiliwn rhestredig Gradd II a chael gwared ar ran o'r wal gerrig ar y ffin ogleddol sy'n rhan o gwrtil y tir yn y rhestriad.

Wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad, dywed Adran 66 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried pa mor ddymunol fyddai cadw'r adeilad neu ei leoliad, neu unrhyw nodweddion sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol sydd o fewn ei feddiant.

Mae Adran 72 o Ddeddf 1990 yn mynnu bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio yn rhoi sylw arbennig i'r dymunoldeb o warchod neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal. Fel mater o bolisi, rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau cynllunio ystyried effeithiau posib datblygiadau ar leoliad Ardaloedd Cadwraeth.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi sut y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol drin Safleoedd Treftadaeth y Byd, henebion cofrestredig, gweddillion archeolegol cenedlaethol pwysig sy'n anghofrestredig, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a pharciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yng Nghymru wrth iddynt ystyried ceisiadau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys effaith datblygiadau arfaethedig ar leoliadau'r asedau hanesyddol hyn.

Dywed paragraff 1.25 TAN 24, fod *"lleoliad ased hanesyddol yn cynnwys yr ardal o'i amgylch lle mae'n cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi, sy'n ymgorffori cydberthnasau blaenorol a phresennol â'r dirwedd gyfagos. Nid oes iddo faint penodedig a gall newid wrth i'r ased a'r ardal o'i amgylch esblygu. Gall elfennau lleoliad wneud cyfraniad cadarnhaol neu negyddol i arwyddocâd ased, gallant effeithio ar y gallu i werthfawrogi'r arwyddocâd hwnnw neu gallant fod yn niwtral. Nid yw lleoliad yn ased hanesyddol yn ei rinwedd ei hun ond mae ganddo werth sy'n deillio o'r ffordd y gall elfennau gwahanol gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol."*

Mae canllawiau pellach ar gael o fewn Canllawiau Arfer Gorau Cadw - Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru. Mae'n nodi bod ystod o ffactorau yn cyfrannu at arwyddocâd asedau hanesyddol ac mae'n rhoi enghreifftiau o'r ffactorau hyn megis elfennau ffisegol ei amgylchedd, perthynas â nodweddion hanesyddol eraill, nodweddion naturiol neu dopograffig, ei berthynas â'r tirwedd a pha mor weledol y mae. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi sut i asesu effaith datblygiad ar leoliad asedau hanesyddol, ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi defnyddio hyn i asesu'r cais hwn, fel y nodir ymhellach isod.

Mae Polisi DM19 y CDLI yn nodi: "Caniateir datblygu sy'n effeithio ar dirweddau neu adeiladau sydd o bwys hanesyddol neu ddiwylliannol ac yn gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad yr ardal leol a'r diddordeb sy'n perthyn iddi lle na fydd yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar eu hymddangosiad arbennig, eu cyfanrwydd pensaernïol neu'u cyd-destun. Lle mae hynny'n bosibl, dylai datblygu wella'r priodweddau hynny a'u cymeriad arbennig."

### **Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth**

Ynglwm â'r cais y mae Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth sy'n ystyried effaith y datblygiad ar leoliad asedau hanesyddol. I grynhoi, mae'r Asesiad yn dod i'r casgliad na fydd nifer o adeiladau rhestredig / asedau treftadaeth eraill sydd wedi'u lleoli y tu allan i safle'r cais yn cael eu heffeithio yn sylweddol mewn unrhyw fodd. Hefyd y bydd unrhyw effaith bosib yn mynd yn llai gydag amser gyda'r llystyfiant fydd rhyngddynt. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno nad yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar adeiladau rhestredig, gan gynnwys yr asedau treftadaeth eraill a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth sydd wedi'u lleoli y tu allan i safle'r cais.

Daw'r Asesiad i'r casgliad y bydd y Pafiliwn Chwaraeon Rhestredig Gradd II a'i gwrtil cysylltiedig, sy'n gorwedd o fewn safle'r cais, yn cael ei effeithio gan y datblygiad arfaethedig. Mae'r Asesiad yn rhagweld y bydd effeithiau'r datblygiad arfaethedig yn fawr ac felly o arwyddocâd sylweddol. Mae'r Asesiad yn nodi y bydd y gwaith arfaethedig i adfer a gwella'r pafiliwn chwaraeon a'r cae chwarae yn lliniaru'r effaith a ragwelir, gan y byddai'r cais yn dod â budd sylweddol i'r adeilad a'i leoliad.

Daw'r Asesiad i'r casgliad na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan.

Hefyd daeth yr asesiad i'r casgliad bod nifer o safleoedd a nodweddion archeolegol a allai fod wedi'u claddu ac sy'n berthnasol i hanes y cae chwarae ac i'r cyfnod cyn hynny, o bosib, pan oedd yn ddim ond cae. Bydd y gwaith o baratoi'r ddaear ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn gallu tarfu ar y rhain. Felly cynghorir bod unrhyw waith paratoi sy'n ymdreiddio i'r ddaear yn cael ei wneud o dan oruchwyliaeth archeolegol ar ffurf 'briff gwyllo'.

### **Asesiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliad asedau treftadaeth**

#### **1. Cam 1: Nodi'r asedau hanesyddol a allai gael eu heffeithio**

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno â'r Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth o ran mai'r ased hanesyddol a fyddai'n cael ei effeithio gan y datblygiad arfaethedig yw'r Pafiliwn rhestredig Gradd II a'i gwrtil cysylltiedig, sy'n cynnwys y wal derfyn gerrig ar hyd y ffin ogleddol a'r fynedfa gatiâu haearn yng nghornel ogledd-ddwyreiniol safle'r cais. Ni fyddai asedau treftadaeth eraill yn cael eu heffeithio'n sylweddol, fel yr ystyriwyd yn yr Asesiad, ac mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno a'i gasgliadau.

## 2. Cam 2: Diffinio a dadansoddi'r lleoliad

Adeilad rhestredig Gradd II yw'r Pafiliwn, sydd wedi'i restru am ei fod o ddiddordeb pensaernïol arbennig - pafiliwn chwaraeon uchelgeisiol o ddechrau'r ugeinfed ganrif sydd wedi ei gadw yn neilltuol o dda. Mae'n bwysig oherwydd ei ddiddordeb hanesyddol arbennig fel enghraifft anarferol o'r math hwn o adeilad. Mae'r Pafiliwn mewn cyflwr gwael ac mae angen ei adnewyddu a'i adfer.

Yn gysylltiedig â'r Pafiliwn hefyd y mae'r wal derfyn ogleddol a'r gatiâu mynediad haearn yng nghornel gogledd-ddwyrain eithaf y cae chwarae. Dywed yr Asesiad eu bod wedi cael eu gosod fel rhan o'r gwelliannau i'r maes chwarae tua'r un adeg ag yr adeiladwyd y Pafiliwn yn 1909. Bydd rhan fach o wal y ffin ogleddol yn cael ei symud i greu mynedfa newydd i gerbydau, a bydd y gât fynediad haearn yn cael ei chadw fel y mae.

Mae'r Asesiad yn nodi bod y meysydd chwarae eu hunain o bwys hefyd a gellir dweud bod ganddynt hanes cyfoethog o gynnal digwyddiadau chwaraeon o bwys, yn arbennig o ystyried hanes y Coleg Dewi Sant cynharach ym myd y campau a'i bwysigrwydd wrth sefydlu rygbi yng Nghymru.

Felly mae ffin y safle a'r caeau chwarae yn rhan bwysig o leoliad y Pafiliwn.

## 3. Cam 3: Gwerthuso'r effaith bosib

Mae'r cynnig yn cynnwys colli'r cae chwarae sydd ar hanner dwyreiniol y safle, a chodi siop fwyd fawr ar hyd ffin y dwyrain, hefyd pentref bwyd fydd yn cynnwys tri phod arddangos o bren parod i'r gogledd o'r Pafiliwn ger y ffin â Heol Pontfaen, mynediad newydd fydd yn cynnwys gwaredu â rhan o'r wal derfyn gerrig, maes parcio, llwybrau, ardal natur a bioamrywiaeth, yn ogystal â phlannu coed.

Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at golli cae chwarae sy'n rhan bwysig o leoliad y Pafiliwn, yn weledol ac yn hanesyddol, a bydd ffurf adeiledig sylweddol yn cael ei chreu yn ei le. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y byddai maint mawr a natur y datblygiad yn tra-arglwyddiaethu ar y Pafiliwn ac yn tansilio'i amlygrwydd. Yn hanesyddol ac ar hyn o bryd, saif y Pafiliwn yn falch fel prif adeilad y safle gan fwrw trem dros y maes agored ac elwa o'r golygfeydd a ddaw o'r caeau chwarae.

Byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn tynnu oddi wrth berthynas ymarferol, hanesyddol a ffisegol y Pafiliwn gyda'r cae chwarae, gan newid yn sylweddol y ffordd y mae'r Pafiliwn yn cael ei amgyffred, ei brofi a'i werthfawrogi. Caiff golwg y Pafiliwn ei leihau a'i guddio yn sgil ffurf adeiledig sylweddol y datblygiad arfaethedig. Ystyri'r hefyd y byddai colli rhan o ffin gerrig y gogledd yn cael effaith andwyol oherwydd byddai'n amharu ar barhad y wal derfyn gerrig ar hyd y ffin hon.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno gyda chasgliad yr Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, sef y bydd effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar leoliad y Pafiliwn yn fawr ac felly o arwyddocâd sylweddol.

## 4. Cam 4: Ystyried yr opsiynau i liniaru'r effaith

Mae canllawiau arfer gorau Cadw (Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru) yn egluro mai lliniaru yw'r cam a gymerir i osgoi neu leihau niwed i arwyddocâd yr ased hanesyddol a'i leoliad. Gallai lliniaru gynnwys, er enghraifft, addasu'r dyluniad, adleoli'r datblygiad neu elfennau penodol, neu gyflwyno sgriniau. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y gallai rhai mesurau lliniaru gael effaith negyddol ar leoliad yr ased hanesyddol. Er enghraifft, gallai sgrin o goed fod yn ffurf estron mewn tirwedd sydd heb goed fel arall.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth o'r farn fod effaith fawr y datblygiad arfaethedig ar leoliad y Pafiliwn yn cael ei lliniaru gan y gwaith arfaethedig i adnewyddu'r Pafiliwn. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi nad yw'r cais yn cael ei gyflwyno i 'alluogi datblygu' ac nad yw'n sicrhau cadwraeth y Pafiliwn at y dyfodol.

Fodd bynnag mae'n werth nodi bod canllawiau Historic England, y gellir eu gwneud yn berthnasol i Gymru hefyd, yn nodi,

*"Wrth ystyried effaith cynigion ar arwyddocâd yr ased treftadaeth dan sylw, dylid rhoi pwysau mawr ar gadwraeth yr ased a dylai fod cyfiawnhad clir a sicr dros niweidio neu golli arwyddocâd yr ased treftadaeth dan sylw. Os bydd cynigion yn niweidio'n sylweddol yr ased treftadaeth dynodedig, dylid eu gwrthod, oni ellir dangos bod y niwed yn angenrheidiol i sicrhau budd cyhoeddus sylweddol sy'n drech na'r niwed hwnnw. Neu, fod ystod o brofion yn berthnasol gan gynnwys ystyried y defnydd a wneir o'r ased, ac ariannu."*

Mae'r canllawiau'n nodi y byddai angen ystyried yn llwyr amrywiaeth o opsiynau posibl er mwyn gwarchod yr ased treftadaeth, a allai gynnwys perchnogaeth gyhoeddus neu elusennol, cyllid grant, defnydd amgen ac ati. Gan nad yw'r cynnig yn cael ei gyflwyno i 'alluogi datblygu' nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ceisio ystyried y datblygiad ar sail y canllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru a chanllawiau arfer gorau eraill sy'n ymwneud â galluogi datblygu, heblaw am dynnu sylw at y ffaith fod angen rhoi pwys mawr ar niweidio asedau treftadaeth a'u lleoliad. Hefyd nad oes modd cyfiawnhau hynny bob amser, er bod y datblygiad yn sicrhau ei gadwraeth at y dyfodol.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod bod y gwaith i warchod y Pafiliwn yn fantais. Ond ni fyddai'r gwaith arfaethedig ar y Pafiliwn yn lliniaru'r effaith fawr y byddai'r datblygiad arfaethedig yn ei chael ar ei leoliad oherwydd byddai'r effaith hon yn parhau, beth bynnag am y gwaith adnewyddu. At hynny, nid yw'r cais yn dangos mai dyma'r unig opsiwn / modd o sicrhau cadwraeth y Pafiliwn at y dyfodol. Beth bynnag, nid yw'r manteision o wneud gwaith adnewyddu ar y Pafiliwn yn drech na'r effaith fawr y bydd y datblygiad arfaethedig yn ei chael ar leoliad y Pafiliwn. Mae effaith y datblygiad ar leoliad y Pafiliwn mor fawr fel mai ofer fyddai'r gwaith adnewyddu.

### Effaith ar leoliad Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan

Mae safle'r cais yn gorwedd y tu allan i Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan. Mae ffin orllewinol yr Ardal Gadwraeth tua 70 metr i'r dwyrain o gornel gogledd-ddwyreiniol y safle. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yn nodi bod rhai elfennau trefol yn tarfu ar ben draw gorllewinol yr Ardal Gadwraeth - gan edrych tuag at y datblygiad arfaethedig - megis cartref gofal preswyl Hafan Deg a'r coed aeddfed yng ngardd yr eiddo hwnnw. Mae'r Asesiad o'r farn mai effaith fach fydd gan y cynigion yn rhan orllewinol yr Ardal Gadwraeth, felly ystyri'r bod arwyddocâd yr effaith yn fach.

Mae safle'r cais y tu allan i'r Ardal Gadwraeth ond serch hynny mae'n rhan bwysig o'r tirwedd a dyma un o'r prif lwybrau i mewn i Llanbedr a'r Ardal Gadwraeth. Mae'r caeau chwarae, y Pafiliwn a'r wal derfyn wedi nodweddu'r rhan hon o'r tirwedd ers tua 1909, a'r caeau cyn hynny. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn newid cymeriad y tirwedd yn sylweddol drwy gyflwyno datblygiad ar raddfa fawr a fydd yn cael

effaith fawr ar leoliad y Pafiliwn yn ogystal ag ar nodweddion gweledol, hanesyddol a diwylliannol y tirwedd.

Nid yw Arfarniad Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol eto, ond mae'n werth nodi bod drafft terfynol Arfarniad Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan yn nodi'r canlynol mewn perthynas â safle'r cais:

*'Mae mynwent Sant Pedr, tir yr Eglwys Gatholig a'r parc bach sydd i'r de o'r rhain yn darparu ardal ddwys arall o fannau agored gwyrdd gyda gorchudd coed ar ochr orllewinol y dref. Mae'n fynediad i'r dref o'r gorllewin, er bod lledaeniad datblygiadau ar hyd ochr ogleddol Ffordd Pontfaen yn meddalu'r trawsnewidiad sydyn o gefn gwlad i'r dref i raddau. Mae caeau agored i'r ochr ddeheuol (safle'r sioc amaethyddol), maes criced y Coleg / caeau chwarae a thai gerdded boblogaidd ar hyd llednant Teifi, Nant Creuddyn. Adeiladwyd y pafiliwn criced, Adeilad Rhestredig Gradd II, ym 1909 gan y pensaer Ll. Bankes-Price, mewn ymgynghoriad â'r Athro Tyrrel Green o Goleg Dewi Sant. Mae'r ardaloedd gwyrdd hyn yn helpu i ddiffinio ymyl y datblygiad er y caiff ei dresmasu ar ochr ogleddol y ffordd. Mae'r maes criced, er ei fod y tu allan i ffiniau'r ardal gadwraeth, yn arwyddocaol fel lleoliad y pafiliwn rhestredig ac am ei gysylltiad hanesyddol â'r Brifysgol yn ogystal â'i gyfraniad i'r lle / mynediad yr ardal gadwraeth.'*

Felly ystyrir bod y cynnig yn cael effaith andwyol ar leoliad Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan.

## Archaeoleg

Fel y nodwyd uchod, daeth yr asesiad i'r casgliad bod nifer o safleoedd a nodweddion archeolegol a allai fod wedi'u claddu ac sy'n berthnasol i hanes y cae chwarae ac i'r cyfnod cyn hynny, o bosib, pan oedd yn ddim ond cae. Bydd y gwaith o baratoi'r ddaear ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn gallu tarfu ar y rhain. Felly cyngorir bod unrhyw waith paratoi sy'n ymdreiddio i'r ddaear yn cael ei wneud o dan oruchwyliaeth archeolegol ar ffurf 'briff gwyllo'. Gellir sicrhau hyn drwy amod cynllunio.

## Amwynder Preswyl

Mae Polisi DM06 o'r CDLI, maen prawf 7, yn amddiffyn amwynder trigolion cyfagos rhag niwed sylweddol mewn perthynas â phreifatrwydd, sŵn a golygon.

Ni fydd effaith fawr ar breifatrwydd y tai i'r gogledd o safle'r cais, ar ochr arall yr heol. Efallai y byddant yn gweld cynnydd bach o ran sŵn o ganlyniad i'r defnydd cynyddol a wneir o'r safle, ond o ystyried cyd-destun trefol y lleoliad a natur y datblygiad, ni fydd hyn yn cael effaith sylweddol ar eu hamwynder. Bydd eu golygon yn sylweddol wahanol i'r sefyllfa bresennol, lle maent yn edrych dros gaeau. Byddai prif adeilad y siop adwerthu yn y gornel ddwyreiniol, gyferbyn â Chanolfan Creuddyn, a rhyngddi a'r tai fe fydd maes parcio ceir, y ffin bresennol a gedwir, a'r heol, sy'n golygu y bydd digon o fwllch rhwng y siop fwyd a'r ffurf adeiledig gyferbyn. Byddai teimlad agored i'r cynnig yn rhannol, rhwng y maes parcio ceir a chadw'r rhan o'r caeau chwarae. Byddai'r cynllun tirlunio arfaethedig hefyd yn helpu i feddalu'r datblygiad. O ganlyniad, er y byddai eu golygon yn newid, ni ystyrir y byddai hyn i'r graddau ei fod yn cael effaith andwyol sylweddol ar eu hamwynder.

Mae cartref gofal preswyl Hafan y Deg yn ffinio â ffin ddwyreiniol y safle. Bydd y ffin bresennol yn cael ei chadw, sy'n cynnwys wal gerrig tua hanner y ffordd i lawr a ffens wifren fetel ar hyd yr hanner arall. Mae ychydig goed hefyd. Mae'r cynnig yn cynnwys ychwanegu at y ffin drwy ffens bren â byrddau a fydd yn mesur 1.8m o uchder. Bydd hon yn dechrau lle mae'r wal gerrig yn dod i ben ac yn parhau hyd ddiwedd ffin gefn Hafan Deg. Bydd y ffens byst a reiliau yn mesur 1.2m o uchder ar hyd y ffin a rennir gyda'r cyrtiau tennis, a bydd ffens bren â byrddau, 1.8m o uchder, ar hyd y ffin a rennir gyda'r lawnt fowlio. Bydd peth effaith andwyol ar amwynder preswylwyr y Cartref Gofal oherwydd ei fod yn agos at gefn y siop fwyd, ond os bydd amodau sy'n cyfyngu ar gludiant i'r siop, ni ystyrir y byddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar eu hamwynder.

Ni fyddai effaith andwyol ar amwynder defnyddwyr y cyrtiau tenis a'r lawnt fowlio oherwydd natur eu defnydd.

Mae ffin ddeheuol safle'r cais yn ffinio ag ysgol gynradd Llanbedr Pont Steffan. Mae'r ffin bresennol yn cynnwys ffens wifren fetel a choed ac nid oes newidiadau yn yr arfaeth ar gyfer y ffin. Bydd y tir sy'n gyfagos i'r ffin hon yn faes parcio i wasanaethu'r Pafiliwn presennol, yn ardal natur a bioamrywiaeth, a bydd y tir ar yr ochr arall i'r Pafiliwn yn cael ei gadw yn gae chwarae. O ganlyniad, ni fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol o gwbl ar yr ysgol gynradd.

Mae adran y Cyngor - Amddiffyn y Cyhoedd - wedi argymhell nifer o amodau er mwyn diogelu amwynder y trigolion.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â Pholisi DM06 y CDLI ac ni fernir ei fod yn achosi effaith niweidiol sylweddol ar amwynder y trigolion cyfagos.

## Priffyrdd a Mynediad

Mae'r cynnig yn cynnwys creu un mynediad cyfun newydd ar gyfer cerbydau, beicwyr a cherddwyr oddi ar Heol Pontfaen. Bydd y fynedfa bresennol drwy'r gatiu haeam yn cael ei chadw ond caiff ei throi'n lwybr cerdded a beicio ar y cyd.

Cynigir y bydd y datblygiad yn cynnwys gwelliannau ychwanegol i'r seilwaith trafndiaeth, gan gynnwys:

- Croesfan newydd i gerddwyr, a reolir, ar Heol Pontfaen i wella'r mynediad ar droed i'r datblygiad
- Cysylltiadau llwybrau troed yn fewnol, gan gynnwys i'r fynedfa bresennol yng nghornel dde-ddwyreiniol y safle tua'r ganolfan hamdden.

Bydd y siop fwyd yn cynnwys 118 o lefydd parcio, gan gynnwys pum lle i bobl anabl, saith lle i rieni a phlant, a dau le 'Clicio a Chasglu'. Bydd y maes parcio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 24 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan. I ddechrau, bydd pedwar pwynt gwefru 'byw' yn cael eu gosod, a'r 20 lle sy'n weddill yn gallu cynnig darpariaeth - hynny yw, bydd y seilwaith wedi'i osod eisoes islaw'r ddaear felly gellir uwchraddio'r llefydd yn hawdd yn ôl y galw.

Bydd pedwar cylchyn i ddal beics o flaen y siop ar gyfer parcio wyth o feics yn ddiogel.

Bydd y man llwytho ar ochr dde-ddwyreiniol yr adeilad, i gefn y safle, a bydd yn cynnwys y man llwytho lle bydd cerbydau cludiant yn

dadlwytho.

Bydd 25 o lefydd parcio gan y tri phod. Bydd 22 o lefydd parcio yn gwasanaethu'r Pafiliwn - 12 ar y tir caled presennol gerllaw'r Pafiliwn a chynigir deg ychwanegol oddi ar y ffordd fynedfa sy'n arwain at y pafiliwn, yn union i'r gogledd-ddwyrain o'r pafiliwn.

Nid yw'r awdurdod priffyrdd lleol wedi codi gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, ar sail amodau.

### **Tirlunio a choed**

Mae TAN 10 yn cyfeirio at Orchmynton Diogelu Coed ac yn nodi bod effaith cynigion cynllunio ar goed sy'n cael eu gwarchod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Mae'n nodi y dylid defnyddio Gorchymyn Diogelu Coed (TPO) i ddiogelu coed os byddai eu symud yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd a mwynhad y cyhoedd ohono.

Mae Polisi DM20 y CDLI yn gosod rhagdybiaeth o blaid cadw coed, gwrychoedd a choetiroedd sy'n bod ar hyn o bryd. Mae'n nodi y bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu, ar yr amod:

1. na fyddai'n diddymu, yn difrodi nac yn dinistrio coed, gwrychoedd na choetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol neu amwynder oni bai fod yr angen am y datblygiad arfaethedig yn drech na'r gwerth hwnnw;
2. y gellir lliniaru neu, os oes raid, wneud iawn am effeithiau negyddol y golled neu'r difrod;
3. y bydd yn sicrhau enillion priodol o ran bioamrywiaeth; ac
4. y bydd y mesurau i wneud iawn a gwella yn defnyddio rhywogaethau brodorol yn bennaf, ac nid rhywogaethau anffroddol goresgynnol.

Mae Polisi DM10 o'r CDLI yn gofyn am gyflwyno cynllun tirwedd ar gyfer cynigion a fyddai'n cael effaith ar y tirwedd.

Mae yna Orchmynton Cadw Coed ar nifer o'r coed sydd o fewn ffiniau'r safle. Mae cynllun sy'n cynnig gwaith tirlunio meddal yn cyd-fynd â'r cais, a chynllun rheoli tirwedd ac asesiad o'r effaith ar goed.

Cynhaliwyd arolwg coed gan Tyler Grange ym mis Hydref 2021, a nododd yr arolwg un goeden a dau grŵp o goed o werth uchel, 21 o goed ac un berth o werth canolig a phum coeden o werth isel. Mae angen colli dwy goeden (T4 a T5) ar y ffin ogleddol a dwy ran o'r berth (H1), sef cyfanswm o 35 metr, i wneud y mynedfeydd newydd i gerddwyr a cherbydau i mewn i'r safle. Roedd yr arolwg o'r farn mai gwerth canolig oedd i'r ddwy goeden (castanwydd) y cynigir eu symud. Mae'r arolwg yn dweud y gellir gwneud yn iawn am y ddwy goeden a gollir, yn ogystal â cholli'r 35m o berth, drwy gynllun plannu helaeth a gynigir yn y cais. Mae hyn yn cynnwys plannu 26 o goed newydd, perth frodorol ar hyd y ffin ddwyreiniol, dŵl laswellt gymysg yn yr ardd law a manau glaswelltog y tu cefn i'r siop.

Dywedodd Swyddog Coed y Cyngor fod gan y cynllun arfaethedig ddewis da o goed i'w plannu megis coed cyll, coed celyn, y ddraenen wen, y gerddinen, y fedwen a choed ceirios yr adar. Ymddengys fod hyn yn addas ar gyfer maint ac amodau daear y safle ac mae llawer o'r rhywogaethau hyn eisoes yn bresennol yn y gwrychoedd yno. Mae'r Swyddog yn argymhell amodau a fydd yn sicrhau bod cynllun plannu coed ar waith a bod tyfwr coed neu Bensaer Tirwedd yn cynnal briff gwylio i sicrhau bod ardaloedd gwarchod gwreiddiau ar waith yn ystod y cyfnod adeiladu, fel yr argymhellwyd yn Adroddiad Coed Tyler Grange.

Mae colli dwy goeden a 35 metr o berth yn anffodus. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw'r ddwy goeden sydd i'w symud o werth uchel oherwydd nodwyd eu bod o werth cymhedrol. Yng nghyd-destun y cynllun yn ei gyfarwydd mae'r golled yn gymharol fach. Ystyrir hefyd fod y cynllun plannu arfaethedig yn cynnig lliniaru / gwneud yn iawn yn ddigonol a byddai'r cynnig hefyd yn sicrhau enillion priodol o ran bioamrywiaeth. O ganlyniad, mae'r cais yn dderbyniol mewn perthynas â choed, gwrychoedd a thirlunio.

### **Rhywogaethau a warchodir**

Mae Asesiad Ecolegol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2021 ynghlwm wrth y cais.

Mae'r rhan fwyaf o'r safle yn borfa amwynder a ddefnyddir ar hyn o bryd yn gaeau chwaraeon gyda darn bach o brysgwydd a mieri yng nghornel gogledd-orllewinol y safle. Mae'r coed ar y safle yn cynnwys rhes o goed castanwydd ifanc a lled-aeddfed ar ffin y gogledd, saith poplysen ddu fawr ar ffin y gorllewin, tair onnen aeddfed ar y ffin ddeheuol, a thair aethen aeddfed ar y ffin ddwyreiniol. Ni ddylid cwmpo coed sydd â'r potensial mawr o gynnal clwydfannau ystumod. Mae rhywogaethau estron goresgynnol wedi cael eu nodi ar y ffin orllewinol, gan gynnwys Balsam yr Himalaya, cotoneaster yr Himalaya a'r farddanhadlen felen.

Ni welwyd tystiolaeth o foch daear yn ystod yr arolwg, ond er mwyn sicrhau nad oes effaith ar y rhywogaeth hon yn sgil y datblygiad, argymhellir bod arolwg diweddar yn cael ei gynnal cyn dechrau ar y gwaith adeiladu. Bydd mesurau diogelu yn ystod y gwaith adeiladu yn cynnwys briffio'r holl weithwyr adeiladu ar y safle a darparu dull o ddianc i'r moch daear megis rampiau o unrhyw ffos neu bwl dwfn a adewir ar agor dros nos.

Bydd cadw'r coridor coetir ar y ffin orllewinol yn lleihau unrhyw effaith ar adar sy'n nythu. Dylid symud cynefinoedd nythu y tu allan i dymor nythu'r adar (1 Mawrth - 31 Awst). Os na fydd hyn yn bosibl, dylai ecolegydd cymwys chwilio unrhyw llystyfiant i'w symud yn union cyn i'r gwaith ddechrau.

Mae cynllun ar gyfer goleuadau allanol wedi'i gyflwyno sy'n manylu ar y mesurau dylunio i atal cynnydd mewn golau ar y coridor i fywyd gwyllt ar y ffin orllewinol. Mae'r dyluniad goleuo yn dilyn y canllawiau a nodir yn Nodyn Cyfarwyddyd 08/18 Ystumod a goleuadau artiffisial yn y DU (Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystumod a Sefydliad y Gweithwyr Goleuo Proffesiynol, 2018) a gellir ei sicrhau drwy amod cynllunio.

Mae argymhellion ar gyfer gwella bioamrywiaeth i'w cael yn yr arfarniad ecolegol ac yn y cynllun 'cyfleoedd a chyfyngiadau', a gellir eu sicrhau drwy amod cynllunio.

### **Safleoedd Gwarchoddedig**

Saif y safle o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi sydd ar hyn o bryd yn methu o ran ei dargedau ffosffadau. Yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) bydd pob cynnig datblygu o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig

Afon Teifi sydd â'r potensial o gynyddu ffosffadau yn cael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i weld beth fydd effaith y ffosffad ychwanegol ar y safle dynodedig a'i nodweddion. Yn ogystal, mae potensial y bydd effaith niweidiol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi o'r llygredd a ddaw o gyfnod adeiladu'r datblygiad. Mae'r safle wedi'i gysylltu'n hydrolegol ag Afon Teifi drwy gyfrwng Nant Creuddyn sy'n rhedeg ar hyd y ffin orllewinol. Mae potensial hefyd i lygredd o'r cyfnod adeiladu fynd i mewn i ddŵr ffo yr arwyneb ac ymlaen i'r safle dynodedig.

Felly mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i gynnal o dan Reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae'r prawf Effaith Arwyddocaol Tebygol yn ystyried yr effaith bosibl ganlyniol:

### **Ffosffadau:**

Mae canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi ei bod yn debygol y gellir dod i gasgliad na fydd effaith arwyddocaol debygol mewn achosion lle mae'r canlyniol yn berthnasol:

- bod y drwydded amgylcheddol ar gyfer y gwaith trin dŵr gwastraff cysylltiedig wedi'i hadolygu ar sail yr amcanion cadwraeth diwygiedig ar gyfer ansawdd dŵr
- bod yna gapasiti i ddarparu ar gyfer y dŵr gwastraff ychwanegol yn unol â therfynau diwygiedig y drwydded
- bod gan y rhwydwaith carthffosydd a'r gwaith trin dŵr gwastraff cysylltiedig y gallu hydrologig ar gyfer cysylltiadau newydd heb fod effaith amgylcheddol yn sgil gorlifoedd storm

Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod y drwydded amgylcheddol wedi cael ei hasesu ar sail yr amcanion cadwraethol diwygiedig a bod capasiti ar waith i ddarparu ar gyfer y dŵr gwastraff ychwanegol. Bydd y gwaith trin dŵr gwastraff yn parhau o fewn terfynau diwygiedig y drwydded ac mae gan y garthffos a'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff cysylltiedig y gallu hydrologig i ddarparu ar gyfer y dŵr gwastraff ychwanegol heb fod gorlifoedd storm mwy aml neu hirach.

O ganlyniad, daw'r TLSE i'r casgliad na fydd effaith arwyddocaol debygol ar nodweddion dynodedig yr Ardal Cadwraeth Arbennig yn sgil mwy o ffosffadau o'r datblygiad hwn. O ganlyniad, bernir nad oes angen Asesiad Priodol llawn.

### **Llygredd:**

Mae'r safle wedi'i gysylltu'n hydrolegol ag Afon Teifi drwy gyfrwng Nant Creuddyn sy'n rhedeg ar hyd ffin orllewinol y datblygiad arfaethedig. Mae potensial i lygredd o'r cyfnod adeiladu fynd i mewn i'r cwrs dŵr drwy ddŵr ffo yr arwyneb ac ymlaen i'r safle dynodedig. Heb fesurau lliniaru a rheoli, ni ellir diystyru effaith arwyddocaol debygol yn sgil y perygl hwn a nodwyd. Gan nad oes modd ystyried lliniaru ar y cam hwn o'r asesiad (yng ngoleuni dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (*People Over Wind and Sweetman v Coillte Teoranta (C-323/17)*) mae angen Asesiad Priodol llawn.

Mae Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylchedd wedi'i gyflwyno sy'n amlinellu'r rhagofalon a'r technegau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i atal llygredd rhag effeithio ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Sicrheir hyn drwy amod cynllunio a fydd yn sicrhau nad oes effaith andwyol ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig.

### **Effeithiau ar y cyd:**

Mae effaith gyfun y datblygiad arfaethedig wedi'i hystyried ynghyd â'r datblygiad arfaethedig a gyflwynwyd o dan gais A230860 ar gyfer uned B1, B2 a B8 yn Llambod. Bydd y Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylchedd yn sicrhau nad oes effaith andwyol ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig yn sgil y datblygiad arfaethedig hwn. Mae Cynllun Strategaeth Ddraenio ac Atal Llygredd wedi'i gyflwyno fel rhan o gais A230860 a fydd hefyd yn sicrhau nad oes effaith andwyol ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig yn sgil y datblygiad arfaethedig hwn.

Daw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r casgliad na fydd y cais yn cael effaith andwyol ar integriti Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi, boed ar ei ben ei hun na chwaith ar y cyd.

### **Llifogydd**

Saif y safle yn bennaf o fewn Parth Llifogydd A, gyda rhan fwyaf gorllewinol y safle o fewn Parthau Llifogydd B ac C2, fel y dangosir ar y Mapiau Cyngor Datblygu sy'n cyd-fynd â TAN15. Mae'r Map Llifogydd diweddaraf i Gymru yn dangos bod rhan fwyaf gorllewinol y safle o fewn Parth Llifogydd 2 a 3.

Nid yw rhan fwyaf gorllewinol y safle yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cais hwn. Felly, bernir mai perygl bychan o lifogydd neu ddim perygl o gwbl sydd gan y datblygiad arfaethedig.

### **Draenio Dŵr Wyneb**

Ymdrinnir â dŵr wyneb drwy System Ddraenio Gynaliadwy a fydd yn cael ei datblygu a'i chymeradwyo fel rhan o Gymeradwyaeth SuDS Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy'r Cyngor. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon y gellir ymdrin â'r dŵr wyneb yn ddigonol drwy broses gymeradwyo SuDS.

### **Halogi**

Mae Arfarniad Geo-amgylcheddol o safle'r cais yn cyd-fynd â'r cais. Mae hwn yn adolygu'r defnydd blaenorol a wnaed o'r safle ac yn cynghori ar y tebygolrwydd o halogi. Daw hyn i'r casgliad nad yw'r safle wedi cael ei ddatblygu ar y cyfan a'i fod wedi cael ei ddefnyddio fel maes chwaraeon yn fwy diweddar. Roedd adeilad bychan yn bresennol yng nghornel ogledd-orllewinol y safle. Nid oes hanes o gloddio am lo ar y safle.

Mae'r Arfarniad yn nodi bod angen rhagor o waith i symud y safle yn ei flaen i'r cyfnod adeiladu, a fydd yn cynnwys:

- cwblhau rhaglen monitro nwy a chyhoeddi asesiad nwy
- chwilio am radon ar y safle i bennu'r mesurau radon sydd i'w cynnwys yn y datblygiad arfaethedig
- dyluniad manwl o'r sylfeini
- cadarnhau gyda'r Awdurdod Lleol yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad



Gellir sicrhau hyn drwy amod cynllunio.

## Casgliad

Nodir manteision cadarnhaol y cynnig, fodd bynnag, nid yw'r rhain yn drech na'r ffaith fod y datblygiad arfaethedig cyn mynd yn groes i bolisiâu manwerthu perthnasol yn ogystal â'r niwed arwyddocaol y byddai'n ei gael ar leoliad yr adeilad rhestredig Gradd II, yr Ardal Gadwraeth a'r tirwed, fel y crynhoir isod:

- Nid oes angen meintiol nac ansoddol am y siop fwyd arfaethedig yn Llanbedr Pont Steffan;
- Byddai disgwyl i'r siop fwyd arfaethedig gael effaith andwyol fawr ar y Sainsbury's presennol yng nghanol tref Llanbedr Pont Steffan. Hyd yn oed pe na bai'n arwain at gau'r siop, byddai nifer y siopwyr yn y canol yn lleihau'n sylweddol, gyda sgil-ffaith ar fusnesau eraill canol y dref. Byddai hyn yn effeithio'n andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd canol y dref, a allai yn ei dro gynyddu nifer y siopau gwag drachefn yn y ganolfan, ar adeg pan fo mater siopau gwag ar gynnydd eisoes yn bryder;
- Disgwylir i'r siop fwyd arfaethedig gael effaith andwyol fawr ar ganol trefi Aberaeron a Llandysul, gyda cholledion o tua 10% o gyfanswm y fasnach cyfleustra yn cael eu rhagweld. Mae hyn yn bryder mawr o ystyried pwysigrwydd y ddarpariaeth cyfleustra i iechyd cyffredinol y ddwy ganolfan ac i'w rôl fel canolfannau gwasanaethu ar gyfer eu cymunedau lleol;
- Mae'r diffyg eglurder ynghylch y manwerthu a gynigir o fewn y 'podiau' yn ei gwneud hi'n anodd asesu'r angen amdanynt a'u heffaith debygol ar ganol tref Llanbedr Pont Steffan. Fodd bynnag, mae pryder y gallai'r unedau hyn fod mewn cystadleuaeth uniongyrchol gyda'r manwerthwyr bach/annibynnol sy'n gweithredu yng nghanol tref Llanbedr Pont Steffan ar hyn o bryd;
- Mae'r podiau arfaethedig yn methu'r prawf cymalog ac nid oes cyfiawnhad dros leoliad y tu allan i'r canol;
- Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol sylweddol ar nodweddion y tirwedd;
- Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol fawr, o arwyddocâd sylweddol, ar leoliad y Pafiliwn Rhestredig Gradd II;
- Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.

## Rheswm dros ei adrodd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

Mae'r Cais wedi'i gyfeirio i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i benderfynu yn ei gylch am ei fod yn ddatblygiad mawr.

## ARGYMHELLIAD:

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn argymhell gwrthod caniatâd cynllunio am y rhesymau a nodir uchod.

## Adroddiad y Panel Archwilio'r Safle

Cytunwyd gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio, a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu (RhD), y byddai'n fuddiol cynnal archwiliad safle cyn i'r cais gael ei drafod yn y Pwyllgor RhD. Gwahoddwyd holl aelodau'r Pwyllgor RhD i fynychu'r Archwiliad Safle.

Cynhaliwyd yr Archwiliad Safle ddydd Gwener, 24 Mai 2024, a fynychwyd gan:

- Cyng Ifan Davies (Cadeirydd)
- Cyng Carl Worrall (Is-gadeirydd)
- Cyng Marc Davies
- Cyng Rhodri Evans
- Cyng Raymond Evans
- Cyng Hugh Hughes
- Cyng Ceris Jones
- Cyng Maldwyn Lewis
- Cyng Meirion Davies
- Cyng Chris James
- Cyng Gareth Lloyd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gethin Davies.

Yn bresennol o'r Gwasanaeth Cynllunio, roedd:

- Dr Sarah Groves-Phillips, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio
- Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu
- Mrs Sian Holder, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (De)

Rhoddyd copi o'r cynllun safle arfaethedig i'r aelodau a disgrifiodd Mrs Holder y datblygiad arfaethedig, gan dynnu sylw at leoliad y siop nwyddau, parcio, mynediad, podiau, pwll bioamrywiaeth, triniaeth o'r ffiniau a rhoi disgrifiad byr o'r gwaith arfaethedig i'r Pafiliwn Rhestredig Gradd II.

Arolygwyd y safle gan yr aelodau o'r fynedfa bresennol i gerddwyr gan nodi'r giatiau presennol i gerddwyr, ffin ymyl y ffordd a lleoliad y fynedfa arfaethedig, a fyddai'n arwain at gollir wal gerrig terfyn bresennol, cloddiau a choed.

Gerddodd yr aelodau ar hyd ffin ddwyreiniol y safle, gan ystyried y datblygiad cyfagos a'r triniaeth o'r ffin presennol ac arfaethedig. Gwelodd yr aelodau hefyd y safle o'r ffin ddeheuol a lleoliad yr ysgol gynradd i gefn y safle.

Ymwelodd yr aelodau â'r safle o'r Pafiliwn gan weld cyflwr presennol y Pafiliwn. Trafododd yr Aelodau faint o'r caeau chwarae a fyddai'n cael ei gollu i'r datblygiad a cheisio eglurhad ynghylch a fyddai gweddill y cae chwarae sydd ar yr ochr orllewinol yn cael ei gadw'n gyfan

gwbl neu a fyddai'n cael ei leihau. Dywedodd Mrs Holder y byddent yn gofyn am eglurhad gan yr asiant.

Sylwodd yr aelodau ar ffiniau presennol y safle a'r ffurf adeiledig o'i gwmpas. Yn dilyn archwiliad o'r safle ei hun, cerddodd yr aelodau i ganol tref Llanbedr Pont Steffan i ddeall pellter y safle o ganol y dref ac fe'u cynghorwyd hefyd i nodi'r unedau gwag yng nghanol y dref.

## RHESWM DROS OHIRIO:

Cyfarfu'r Grŵp Oeri ddydd Mawrth 30 Gorffennaf. Mynychwyd gan y Cynghorydd Ceris Jones, Y Cynghorydd Gareth Lloyd, Y Cynghorydd Rhodri Evans a'r Cynghorydd Ifan Davies. Y swyddogion a oedd yn bresennol oedd Mr Russell Hughes-Pickering, Dr Sarah Groves-Phillips, Mr Sam Pugh a Mrs Sian Holder.

Hysbyswyd Aelodau Lleol bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddyd Erthygl 18 dros y cais wrth iddynt ystyried a ddylid 'ei alw i mewn'.

Roedd y Grŵp Oeri wedi ailymgynnull ar ddydd Mercher 22 Ionawr 2025 a mynychwyd gan y Cynghorydd Gareth Lloyd, y Cynghorydd Raymond Evans, y Cynghorydd Meirion Davies, y Cynghorydd Gethin Davies a'r Cynghorydd Ifan Davies. Y swyddogion oedd yn bresennol oedd Mr Russell Hughes-Pickering, Dr Sarah Groves-Phillips a Mrs Catrin Newbold.

Hysbyswyd Aelodau Lleol yn ôl cais y Grŵp Oeri gwreiddiol, gofynnwyd am gyngor cwnsler cyfreithiol arbenigol.

## Trafodaeth Grŵp Oeri

Hanes y Safle

Mathau o Siopa

Trosiant y Siop

Trafodaeth ym Mhwyllgor Rheoli Datblygu - Cefnogaeth y cyhoedd, Canolfan Tir Glas

Pryderon Treftadaeth

Yn ail gyfarfod y Grŵp Oeri – trafodwyd y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Aldi ochr yn ochr â chyngor y Cwnsler i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

## Risgiau

Ystyriwyd risgiau cymeradwyo'r cais o safbwynt iechyd canol y dref ochr yn ochr â risgiau'r penderfyniadau, Adolygiad Barnwrol, Galw i mewn gan Lywodraeth Cymru, Apêl ac ati.

## Ystyriaethau Cynllunio Materol

Ystyriodd y Grŵp Oeri yr ystyriaethau cynllunio materol y byddai'n cefnogi'r cais ac roedd o blaid meddwl y byddai'r canlynol yn berthnasol:

1. Angen Meintiol
2. Angen ansoddol – mae cefnogaeth y gymuned yn dangos bod angen ansoddol ar gyfer yr Aldi a'r bwyd gostyngedig y mae'n ei gynnig.
  - a. Cynaliadwyedd annog mwy o breswylwyr i siopa'n lleol ac osgoi colli masnach i ganolfannau eraill
  - b. Yr effaith y byddai pobl yn gwneud teithiau cysylltiedig i Aldi a'r stryd fawr yn ei chael ar economi Llambod – o bosibl yn adfywio'r stryd fawr
3. Unrhyw gyfiawnhad arall
  - a. Bydd 'adnewyddu'r' Adeilad Rhestredig yn fudd net o'r cynllun
  - b. Byddai uwchraddio'r cae chwarae presennol o ran ansawdd y cae o fudd net i'r gymuned
4. Y prawf dilyniannol -Mae'r aelodau yn teimlo bod hyn yn gyfystyr â datblygu'r canol
5. Yr effaith manwerthu ar ganol y dref -Effaith economaidd – creu swyddi oherwydd y datblygiad

## Trafodaeth

### Angen Meintiol

Ystyriwyd bod yr angen am ragor o arwynebedd llawr manwerthu yn Llanbedr Pont Steffan yn rhy fach pan fabwysiadwyd y CDLI. Ni ystyriwyd bod angen clustnodi safleoedd i ddarparu ar gyfer yr angen cyfyngedig a nodwyd gyda chyfleoedd ar gael ar y stryd fawr bresennol. Mae Astudiaeth Ranbarthol 2017 hefyd yn nodi mai ychydig iawn o gapasiti sydd yn yr ardal ac mai ond 27-55 metr sgwâr net o arwynebedd llawr sydd ei angen yn ychwanegol erbyn 2036. Mae'r ffigurau a baratowyd yn y PRS yn dangos capasiti cyfyngedig o £5.79m ar gyfer nwyddau cyfleus erbyn 2026, sef y capasiti ac eithrio ystyriaeth a wneir ar gyfer y siop Aldi arfaethedig yn Aberystwyth, neu ar gyfer unrhyw siop gyfleustra arall a ganiateir yn ardal gyfan yr astudiaeth, sy'n ardal ddaearyddol fawr. Os ystyrir siop Aldi yn Aberystwyth, gan dybio felly y bydd yn cael ei hadeiladu, mae dadansoddiad y PRS yn cadarnhau nad oes digon o gapasiti i gefnogi'r datblygiad arfaethedig hwn unwaith y bydd yr ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys yn yr asesiad o anghenion. At hynny, nid oes digon o gapasiti hyd yn oed os tybir bod cyfradd gadw'r farchnad yn yr ardal astudio yn cynyddu gan 5%, sy'n gymharol fawr.

Y casgliad felly yw nad oes angen meintiol am y siop arfaethedig ac nad oes tystiolaeth o or-fasnachu sylweddol yn siopau bwyd Llanbedr Pont Steffan.

### Angen ansoddol

O ran yr 'angen ansoddol' nid yw maint y gefnogaeth ar gyfer cais yn berthnasol i'r broses wneud penderfyniadau. Er yn y cyd-destun hwn,

teimlir ei fod yn dangos cefnogaeth ar gyfer bwyd gostyngedig yn Llambod. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw y dylid rhoi pwysau cyfyngedig i'r ddaol angen ansoddol o ystyried y sylfaen dystiolaeth sylweddol sydd ar gael ar y safle hwn gan ddangos diffyg capasiti manwerthu .

Gan gyfeirio at gynaliadwyedd y cynnig a gallu'r cynnig i adfachu masnach a olyngwyd i ganolfannau eraill, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod rhywfaint o fanteision i hyn. Rydym yn derbyn y bydd rhai defnyddwyr y siop yn ymgymryd â theithiau byrrach i gael mynediad i'r siop fwyd hon (yn amodol ar y math o breswylwr) na theithio i ganolfannau eraill. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn y gellir rhoi rhywfaint o bwysau i hyn wrth wneud penderfyniadau.

O ystyried y ddaol 'taith gysylltiedig', y byddai defnyddwyr y siop fwyd hefyd yn defnyddio'r stryd fawr gan helpu i gefnogi siopau'r stryd fawr. Mae hyn yn anoddach i fesur, er y cytunir y gall rhai defnyddwyr wneud patrymau ymddygiad o'r fath yn wir, gellid dweud bod gan ddarpariaeth bresennol yr archfarchnad yr un buddion, gyda Sainsbury's sydd yng nghanol y stryd fawr mewn sefyllfa arbennig o dda i hwyluso teithiau cysylltiedig. Felly nid yw'n glir a fyddai ychwanegu trydedd archfarchnad yn helpu'r sefyllfa hon neu a fyddai masnach yn tynnu o'r archfarchnad yng nghanol y dref i archfarchnad y tu allan i ganol y dref yn niweidiol. Mae'r drafodaeth gan yr asiant yn y pwyllgor yn addo parcio am ddim am gyfnod o 3 awr i'w chrosawu. Ar y cyfan mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn nad yw budd posibl y stryd fawr drwy deithiau cysylltiedig yn dwyn fawr o bwysau o ystyried y cyfleoedd presennol ar gyfer gweithgarwch o'r fath ac yn seiliedig ar y dystiolaeth bod niwed yn debygol i'r stryd fawr o ganlyniad i'r datblygiad.

Os yw dadl ansoddol am gael ei symud ymlaen, mae'n bwysig deall sut mae 'archfarchnadoedd disgownt' yn wahanol i archfarchnadoedd cyffredin a sicrhau bod modd sicrhau hyn yn y caniatâd.

Mae Aldi wedi darparu tystiolaeth bellach i'r perwyl hwn. Nodweddion allweddol y model yw:

Mae Aldi yn gwerthu ystod gyfyngedig o nwyddau (1,800 o gynhyrchion) o'i gymharu ag archfarchnad draddodiadol gydag arwynebedd llawr o 1,000 – 1,500 metr sgwâr y dywedir ei fod yn gwerthu tua 2,500-4,000 o gynhyrchion.

Mae Aldi yn cymhwyso ei label ei hun i "c.90%" o'r cynhyrchion y mae'n eu gwerthu.

Mae disgowntwyr fel arfer yn dyrannu 20% o'u harwynebedd llawr i gymharu â 30-40% o arwynebedd llawr mewn archfarchnadoedd traddodiadol mwy.

Nid yw Aldi yn gwerthu sigarêts / cynhyrchion tybaco, deunydd ysgrifennu na nwyddau fferyllol. I ychwanegu at hyn, nid yw siopau Aldi yn cynnwys cigydd arbenigol, gwerthwr pysgod, delicatessen neu gownter bwyd poeth fel llawer o archfarchnadoedd mwy.

Mae'r wybodaeth a ddarperir bron yn gyfan gwbl yn dystiolaeth Aldi ei hun sy'n heb ei chyfuno gan ddeunydd trydydd parti. Yr unig dystiolaeth trydydd parti yw'r dyfyniad canlynol o adroddiad dros 16 oed (30/04/08) gan y Comisiwn Cystadleuaeth:

*"Mae gan [Gostyngwyr Amrywiaeth Cyfyngedig (LAD)] ystod gyfyngedig o nwyddau groser ac maent yn seilio eu harlwy manwerthu ar werthu'r cynhyrchion hynny am brisiau cystadleuol iawn. Y tri phrif Ostyngwyr Amrywiaeth Cyfyngedig yn y DU yw Aldi, Lidl a Netto. Mae pob un ... yn cario tua 1,000 i 1,4000 o linellau cynnyrch mewn siopau yn amrywio o 500m2 i 1,400m2 (mae siopau o faint tebyg a weithredir gan adwerthwr groser mawr yn cludo tua 5,000 o gynhyrchion yn gyffredinol). Roedd Aldi, i raddau helaeth, yn cario nwyddau ar eu label ei hun yn unig tra bod Lidl a Netto yn cario mwy o gynnyrch brand."*

